# Cynllun Gweithredu

# Coetiroedd i Gymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



***"Coetiroedd i Gymru"***

*Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed*

**Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru**

## TABL CYNNWYS


| | | *Rhif Tudalen:* |
|---|---|---|
| **Rhagair y Gweinidog** | | **3** |
| **Rhan 1** | **"Coetiroedd i Gymru"**<br>*Crynodeb o strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed yng Nghymru.* | **4** |
| **Rhan 2** | **Cynllun Gweithredu**<br>*Ffocws tymor byr ar y camau gweithredu a'r gweithgareddau i wneud cynnydd tuag at gyflwyno uchelgeisiau tymor hir "Coetiroedd i Gymru".* | **7** |
| | - ***Egwyddorion Sylfaenol*** | **8** |
| | - ***Mecanweithiau Cyflawni*** | **10** |
| | - ***Camau Blaenoriaeth*** | **13** |
| **Rhan 3** | **Adrodd ac Adolygu**<br>*Y broses ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu a'r gweithgareddau a nodir yn y Cynllun Gweithredu hwn.* | **50** |
| **Atodiad 1** | **"Coetiroedd i Gymru" Gweledigaeth, Themâu a Chanlyniadau** | **52** |
| **Atodiad 2** | **Nodau Llesiant** | **53** |
| **Atodiad 3** | **Geirfa** | **54** |


**ISBN: 978-1-4734-5647-1**

# Rhagair y Gweinidog



**Rwy'n falch iawn o fod yn darparu'r rhagair ar gyfer *Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru.* Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi'r camau a'r gweithgareddau sy'n cael eucynllunio i sicrhau cynnydd tuag at gyflawni gweledigaeth a chanlyniadau ein strategaeth 50 mlynedd *Coetiroedd i Gymru*. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r Cynllun, yn arbennig Panel Ymgynghorol y Strategaeth Coetiroedd am eu mewnbwn annibynnol.**

**Mae coetiroedd iach, gwydn, o ansawdd uchel yn dod â manteision cymdeithasol a chymunedol gwirioneddol i bobl Cymru. Mae hyn yn arwain at amgylchedd o ansawdd gwell ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol tuag at drechu tlodi a chreu cyfleoedd sy'n gysylltiedig â thwf gwyrdd ar gyfer cyflogaeth a chreu incwm. Yn ogystal ag addasu i newid yn yr hinsawdd eu hunain, mae coetiroedd a choed yn helpu Cymru i ymateb i effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy greu coetiroedd a thrwy wneud defnydd ehangach o bren o Gymru ar gyfer adeiladu cynaliadwy.**

**Nid oes amheuaeth fod coetiroedd a choed yn adnodd naturiol gwerthfawr sy'n gallu helpu i gwrdd ag anghenion pobl a chymunedau. Drwy'r camau gweithredu yn y Cynllun hwn, ein nod yw gwneud ein coetiroedd yn fwy amrywiol a gwydn a phlannu mwy o goed mewn coetiroedd er mwyn gwireddu'r buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y gallai coetiroedd a choed eu darparu, yn awr ac yn y dyfodol.**

**Mae Fframwaith y Polisi Adnoddau Naturiol yn datblygu fel dull o gynllunio a blaenoriaethu'r cyfleoedd a gyflwynir gan adnoddau naturiol yng Nghymru. Mae coetiroedd a choed yn asedau allweddol ac yn ffurfio rhan sylweddol o'n hadnoddau naturiol gan gyfrannu tuag at y nodau i wella llesiant Cymru ac a wnaed yn statudol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y Cynllun hwn yn helpu i fwrw ymlaen gyda chyd-destun polisi ehangach adnoddau naturiol Cymru.**

**Bydd pawb sydd â diddordeb mewn coetiroedd a choed yn dymuno gweld gweledigaeth a chanlyniadau *Coetiroedd i Gymru* yn cael eu cyflawni. Rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi cytuno i weithredu'r Cynllun hwn ac rydym yn awr i gyd bellach yn cael ein herio i gyflawni'r camau gweithredu i sicrhau bod coetiroedd yn cynnig buddion gwirioneddol i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.**

**Carl Sargeant AC**

**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**

# RHAN 1

## *"Coetiroedd i Gymru"* – Crynodeb o Strategaeth Llywodraeth Cymru

1. *"Coetiroedd i Gymru"* yw strategaeth pum deg mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed yng Nghymru. Fe'i cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2001 ac fe'i diwygiwyd ym Mawrth 2009. Mae'n cyflwyno nodau ac amcanion polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer yr *holl* goetiroedd a choed yng Nghymru, sef y rhai mewn perchnogaeth gyhoeddus a phreifat, boed hynny mewn amgylcheddau gwledig, ardaloedd o gwmpas trefi neu amgylcheddau trefol.

2. Mae *"Coetiroedd i Gymru"* yn cydnabod bod rheoli coetiroedd a choed yn weithgaredd hirdymor sy'n gallu dod ag ystod o fuddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru, gan gynnwys gwneud cyfraniad sylweddol tuag at liniaru effaith y newid yn yr hinsawdd. Mae coedwigaeth, coetiroedd a choed yn rhan allweddol o ddull mwy cyfannol o reoli adnoddau naturiol Cymru mewn dull mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydlynus. Mae’r dull hwn yn cael ei ddatblygu ym Mil yr Amgylchedd (Cymru). Oherwydd yr amrywiaeth o fuddion y gallant eu darparu, bydd coed Cymru yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan helpu i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae coed Cymru felly yn ased bwysig sy’n cyfrannu at i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ***sbarduno twf gwyrdd, gwydnwch a diogelwch*** ac, yn arbennig, ***trechu tlodi*** .

3. Sail *"Coetiroedd i Gymru"* yw'r cysyniad o goedwigoedd, coetiroedd a choed cynaliadwy sy'n darparu ystod lawn o fuddion. Diffiniodd Cynhadledd y Gweinidogion ar Warchod Coedwigoedd yn Ewrop[1] reoli coedwigoedd yn gynaliadwy fel *"gofalu am a defnyddio coedwigoedd a thiroedd coedwig mewn ffordd, ac ar gyfradd, sy'n cynnal eu bioamrywiaeth, eu cynhyrchiant, eu gallu i adfywio, eu bywiogrwydd a'u potensial i gyflawni swyddogaethau ecolegol, economaidd a chymdeithasol perthnasol, yn awr ac yn y dyfodol, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, ac mewn modd nad yw'n achosi difrod i ecosystemau eraill'.* Rheoli coedwigoedd, coetiroedd a choed Cymru yn gynaliadwy yw'r sail y gallant wedyn ei defnyddio i gyfrannu at bob un o'r nodau ehangach yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

4. Gweledigaeth hirdymor *"Coetiroedd i Gymru"* yw:

> *"Bydd Cymru'n cael ei hadnabod am ei choetiroedd o ansawdd uchel sy'n harddu'r dirwedd, sy'n briodol i amodau lleol ac sydd â chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd."*

[1] Penderfyniad Ail Gynhadledd y Gweinidogion ar Warchod Coedwigoedd yn Ewrop, 16-17 Mehefin 1993.

Mae *"Coetiroedd i Gymru"* yn rhagweld y bydd cyflawni'r *Weledigaeth* yn: -

- darpar â buddion cymdeithasol a chymunedol gwirioneddol, yn lleol ac yn genedlaethol;
- cefnogi diwydiannau ffyniannus sy'n seiliedig ar goetiroedd; ac yn
- cyfrannu at amgylchedd o ansawdd gwell drwy Gymru gyfan.

5. Mae *"Coetiroedd i Gymru"* yn nodi 20 o *Ganlyniadau* lefel uchel sy'n gweithredu fel ffocws hirdymor ar gyfer gweithredu'r *Weledigaeth*. Mae'r *Canlyniadau* wedi'u fframio o amgylch pum *Thema*:


> - *Coetiroedd a Choed Cymru*
> - *Ymateb i Newid yn yr Hinsawdd*
> - *Coetiroedd i Bobl*
> - *Sector Coedwigaeth Gystadleuol ac Integredig*
> - *Ansawdd Amgylcheddol*

Mae natur ac ansawdd, dosbarthiad a rheolaeth coetiroedd a choed Cymru yn sail i gyflwyno "Coetiroedd i Gymru". Felly thema *Coetiroedd a Choed Cymru* yw'r sylfaen sy'n cefnogi'r pedair thema arall sy'n canolbwyntio ar faterion penodol. Cyflwynir *Themâu a Chanlyniadau "Coetiroedd i Gymru"*, ynghyd â'r Weledigaeth, yn **Atodiad 1.**

6. Bwriedir i'r *Cynllun Gweithredu* hwn nodi'r camau gweithredu a'r gweithgareddau tymor byr i gyflawni uchelgeisiau hirdymor *"Coetiroedd i Gymru".* Mae'n rhan o gyfres o gynlluniau pum mlynedd sy'n nodi'r camau gweithredu a gymerir yn ystod oes pob cynllun unigol. Mae camau gweithredu a gweithgareddau tymor byr (a ddisgrifir fel *"camau blaenoriaeth")* yn cael eu cysylltu yn y *Cynllun* hwn â'r *Canlyniadau* lefel uchel a nodwyd yn *"Coetiroedd i Gymru"*. Mae'r *camau blaenoriaeth* hyn, ynghyd ag *"egwyddorion sylfaenol"* a *"mecanweithiau cyflawni"* (sy'n fwy parhaus eu natur ac yn debygol o barhau tu hwnt i oes pum mlynedd y *Cynllun* hwn i mewn i'r cynlluniau nesaf ac wedi hynny) yn ffurfio elfennau allweddol y *Cynllun Gweithredu*. Gyda'i gilydd, mae'r elfennau yn rhoi ffocws ar gamau gweithredu a gweithgareddau i wneud cynnydd tuag at gyflawni *Canlyniadau* a *Gweledigaeth "Coetiroedd i Gymru".*

7. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae'r *Cynllun Gweithredu* hwn yn gosod y camau gweithredu a'r gweithgareddau tymor byr i gyflawni uchelgeisiau hirdymor *Coetiroedd i Gymru* a fydd yn eu tro yn cyfrannu tuag at nodau ehangach llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (a gyflwynir yn fanwl yn **Atodiad 2**).

## *Cyd-destun ar gyfer "Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru"*



# RHAN 2

## Cynllun Gweithredu

8. Ceir cyfranogiad a diddordeb eang a thraws-sector mewn coedwigaeth, coetiroedd a choed gan gynnwys gan: Lywodraeth Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru (“CNC”); awdurdodau lleol; busnesau; grwpiau coetiroedd a grwpiau cymunedol eraill; elusennau; tirfeddianwyr ac unigolion. Mae ganddynt oll ran i'w chwarae i gyflawni *Gweledigaeth "Coetiroedd i Gymru"* a chyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y *Cynllun Gweithredu* hwn.

9. Mae'r *Cynllun Gweithredu* wedi ei ddatblygu o amgylch tair elfen sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi sylw i gamau gweithredu a gweithgareddau'r holl sefydliadau a'r unigolion hyn. Yr elfennau yw:

| |
|---|
| ***Egwyddorion sylfaenol***<br>Y sylfaen ar gyfer coetiroedd cynaliadwy sy'n darparu ystod lawn o fuddion<br><br>***Mecanweithiau cyflawni***<br>Yr offer ar gyfer cyflawni<br><br>***Camau blaenoriaeth***<br>Rhoddir sylw i gamau gweithredu tymor byr penodol a gweithgareddau ar gyfer cyflawni |

10. Mae'r *Cynllun Gweithredu* hwn yn mynd ymlaen tan Fawrth 31, 2020. Mae'r ***egwyddorion sylfaenol*** a'r ***mecanweithiau cyflawni*** yn fwy parhaol a sylfaenol eu natur a byddant yn parhau y tu hwnt i'r *Cynllun* hwn i'r cynlluniau nesaf ac wedi hynny. Mae'r ***camau blaenoriaeth*** yn gamau a gweithgareddau penodol i'w gweithredu yn ystod cyfnod y *Cynllun* hwn. Efallai na fydd llinellau rhannu clir rhwng y tair elfen hyn bob amser a gallai materion penodol gael eu cynnwys o fewn un, dwy neu hyd yn oed bob un o'r tair elfen. Er enghraifft, mae cyfeiriad at Safon Coedwigaeth y DU yn cael ei gynnwys yn y *Cynllun* hwn fel rhywbeth sy'n cefnogi *egwyddor sylfaenol* "coedwigoedd a choetiroedd cynaliadwy". Mae cadw at y Safon hefyd yn dangos "arfer gorau", un o'r *mecanweithiau cyflawni.* Felly, nid yw ***egwyddorion sylfaenol, mecanweithiau cyflawni a chamau blaenoriaeth*** yn elfennau sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain. Maent yn bendant iawn yn rhai rhyng-gysylltiedig a chyda'i gilydd yn y *Cynllun* hwn maent yn rhoi ffocws ar gyfer gweithgarwch i gyflawni *Canlyniadau* a *Gweledigaeth "Coetiroedd i Gymru".*

11. Arwyddocâd y ***camau blaenoriaeth*** yw mai dyma'r camau penodol hynny a fydd yn cael eu cyflawni yn y tymor byr (hyd at 5 mlynedd) yn ystod oes y *Cynllun* hwn. Maent wedi eu cysylltu â *Chanlyniadau "Coetiroedd i Gymru"* ac adroddir am gynnydd yn eu herbyn yn flynyddol.

12. Nodir yr ***egwyddorion sylfaenol, y mecanweithiau cyflawni a'r camau blaenoriaeth*** isod.

## ***Egwyddorion sylfaenol***

***Y sylfaen ar gyfer coetiroedd cynaliadwy yn darparu ystod lawn o fuddion***

13. Yr ***egwyddorion sylfaenol*** yw'r rhai sy'n cynnig y fframwaith a'r cyd-destun ar gyfer cyflawni'r *camau blaenoriaeth* penodol a nodir yn y *Cynllun Gweithredu* hwn. Maent yn rhai mwy parhaol eu natur a byddant yn parhau y tu hwnt i'r *Cynllun* hwn i mewn i'r iteriadau nesaf a rhai yn y dyfodol.

14. Yr ***egwyddorion sylfaenol*** yw: -

- ***Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy*** i gynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau Cymru, eu gallu i liniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a'u gallu i ddarparu buddion i bobl, amgylchedd ac economi Cymru, yn y presennol ac yn y dyfodol.

- ***Coedwigoedd a choetiroedd cynaliadwy*** *fel y diffinnir gan y dogfennau canlynol:*
    - Safon Coedwigaeth y DU;
    - Safon Sicrhau Coetir y DU.

- **Ymrwymiadau rhyngwladol:**

- Cyfraniad Cymru at ymrwymiadau'r DU, Ewropeaidd a byd-eang at reoli ecosystemau coedwigoedd yn gynaliadwy, er enghraifft o dan Gynhadledd y Gweinidogion ar Warchod Coedwigoedd yn Ewrop a'r Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd.

- ***Buddion lluosog coedwigaeth, coetir a choed dros y tymor byr, canolig a hir fel:***

  - pren;
  - dal carbon;
  - rheoli dŵr;
  - ynni gwyrdd;
  - datblygu busnes a menter gymdeithasol;
  - addysg a sgiliau;
  - hamdden a mynediad;
  - iechyd a llesiant; a
  - bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau eraill.

- ***Cynyddu gorchudd coetir yng Nghymru***

  - i wneud y gorau o'r buddion cynaliadwy y gallai coedwigaeth, coetiroedd a choed eu darparu ar draws ardaloedd gwledig, amdrefol a threfol i ddiwallu anghenion pobl a chymunedau lleol; ac
  - integreiddio rheoli coedwigoedd, coetiroedd a choed gyda defnyddiau tir eraill i ddatblygu gwytnwch.

- ***Gweithio gyda'n gilydd i fanteisio ar gyfleoedd:***

  - Llywodraeth Cymru;
  - Cyfoeth Naturiol Cymru;
  - Cyfranogwyr[2] yn y gwaith o gyflawni'r Cynllun "Deg o Ardaloedd Gweithredu ar gyfer Adnoddau Coedwig Cymru".

[2] Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cydffederasiwn y Diwydiannau Coedwigaeth a Phartneriaeth Fusnes Coedwig Cymru.

- grwpiau coetiroedd a grwpiau cymunedol eraill;
- awdurdodau lleol;
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig;
- busnesau;
- elusennau;
- tirfeddianwyr; ac
- unigolion.

- ***Monitro:***
  - drwy'r fframwaith statudol arfaethedig ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
  - Dangosyddion ac arolygon *Coetiroedd i Gymru*;
  - Y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol;
  - Rhaglen fonitro a gwerthuso Glastir;
  - Adrodd ynghylch /adolygu'r *Cynllun Gweithredu*; a
  - thystiolaeth arall.

## ***Mecanweithiau cyflawni***

***Yr offer ar gyfer cyflawni***

15. Y ***mecanweithiau cyflawni*** yw'r prif offer ar gyfer cyflawni'r *camau blaenoriaeth* penodol a nodir yn y *Cynllun Gweithredu* hwn. Fel yr ***egwyddorion sylfaenol***, mae'r ***mecanweithiau cyflawni*** yn barhaus eu natur a byddant yn parhau y tu hwnt i'r *Cynllun* hwn i mewn i'r iteriadau nesaf a rhai yn y dyfodol.

16. Y ***mecanweithiau cyflawni*** yw: -

- ***Yr offer cyflawni arfaethedig ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy,*** *fel:*

    - **Cyllidebu carbon** i sbarduno cyflwyno cyfraniad Cymru at darged 2050 ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;

    - **Adrodd am Gyflwr Adnoddau Naturiol** gan ddarparu'r sail tystiolaeth i nodi cyfleoedd i wella cydnerthedd adnoddau naturiol Cymru ac i wneud y gorau o'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tymor hir y maent yn eu darparu i sbarduno twf gwyrdd;

    - **Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol**, yn nodi'r cyfeiriad teithio ar lefel uchel ar gyfer yr holl bolisi sy'n gysylltiedig ag adnoddau naturiol yng Nghymru;

    - phroses gynllunio a gosod blaenoriaethau'r **Dull Seiliedig ar Ardal** sy'n cydlynu'r defnydd o adnoddau fel y gwneir y gorau o fuddion cynaliadwy yn y tymor hir ar gyfer pobl, amgylchedd ac economi Cymru yn y presennol ac yn y dyfodol; a

    - **Pholisi Cynllunio Cymru**, y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol i ddiogelu isadeiledd presennol a chyflwyno isadeiledd gwyrdd newydd fel rhan o ddatblygiad newydd er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd, twf economaidd ac iechyd a lles ein cymunedau.

- ***Deddfwriaeth amgylcheddol bresennol:*** swyddogaethau, dyletswyddau a phwerau dan ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Coedwigaeth 1967 a Deddf Iechyd Planhigion 1967.

- ***Arfer gorau:*** gan gynnwys cynllunio rheoli coedwigoedd gan gadw at egwyddorion Safon Coedwigaeth y DU.

- ***Cymhellion:***

    - cynhyrchu coed;

    - prosesu sylfaenol ac eilaidd;

    - ynni gwyrdd;

- dal carbon;
- gwasanaethau a buddion diwylliannol a chymdeithasol;
- taliadau am wasanaethau ecosystemau; a
- chymorth y sector cyhoeddus (CDG (RDP) a Glastir, cyllid ERDF ac ESF, cyllid Ewrop 2020, LEADER, LIFE a chyllid grant arall).

• ***Polisi, gwybodaeth a chanllawiau***, gan gynnwys:
  - Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol;
  - Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd i Gymru;
  - *Coetiroedd i Gymru;*
  - Cynllun Adfer Natur Cymru;
  - Polisi Cynllunio Cymru a'r gyfres ategol o Nodiadau Cyngor Technegol;
  - Polisïau cymdeithasol gan gynnwys tlodi plant, twristiaeth a fframwaith adfywio lleoedd llewyrchus llawn addewid;
  - Cyswllt Ffermio;
  - Safon Coedwigaeth y DU;
  - UKWAS; ac
  - eiriolaeth Glastir.

• ***Rheoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru:***
  - esiampl o arfer coedwigaeth da;
  - cyfleoedd i brofi ymchwil ac arfer gorau; a
  - blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol a Chynllun Busnes blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru.

• ***Ymchwil a thystiolaeth:***

- gwyddoniaeth a thystiolaeth gadarn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni coedwigoedd a choetiroedd cynaliadwy.

- ***Gweithio'n gydgysylltiedig:***

  - cydweithio i sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnynt;

  - creu cysylltiadau rhwng mentrau i wneud y gorau o'r cyllid a'r buddion sydd ar gael;

  - gweithio gyda sectorau defnydd tir eraill tuag at ddefnydd tir integredig.

## ***Camau blaenoriaeth***

| |
|---|
| ***Rhoddir sylw i gamau gweithredu tymor byr penodol a gweithgareddau ar gyfer cyflawni*** |

17. O fewn y *Cynllun Gweithredu* hwn, mae pedwar ar ddeg o ***gamau blaenoriaeth.*** Maent yn darparu ffocws tymor byr ar y camau gweithredu penodol i'w cyflawni dros oes y *Cynllun Gweithredu* hwn. Bob blwyddyn, bydd cynnydd yn erbyn y *camau blaenoriaeth* yn cael ei fonitro a rhoddir adroddiad yn ei gylch. Mae Rhan 3 - *Monitro ac Adrodd* - yn egluro sut y bydd hyn yn cael ei wneud.

18. Gallai *camau blaenoriaeth* newydd gael eu nodi wrth i amgylchiadau newid dros y cyfnod a gwmpesir gan y *Cynllun*. Ond ni fydd unrhyw *gam blaenoriaeth* yn cael ei ddileu hyd nes yr adroddir yn ei gylch.

19. Mae'r pedwar ar ddeg *o gamau blaenoriaeth* yn ymddangos isod ac maent yn cael eu grwpio o dan y chwe maes canlynol: -

    - ***Iechyd coed***

    - ***Cefnogi creu a rheoli coetiroedd***

    - ***Gwella'r gwaith o reoli a chynhyrchu pren o Gymru a'i fanteision economaidd***

- ***Gwella cyflwr coetiroedd a choed***

- ***Coedwigaeth, coetiroedd a choed a'u gwerth o ran elfennau nad ydynt yn ymwneud â phren***

- ***Gweithio ar draws ffiniau'r DU***

20. Mae fformat cyson yn cael ei ddefnyddio ar gyfer nodi'r *camau blaenoriaeth*:

- trosolwg byr sy'n rhoi cyflwyniad i bob maes ac i bob *cam gweithredu;*

- manylion am y sefydliad arweiniol a'r partneriaid, a fydd gyda'i gilydd yn sbarduno'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu;

- y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y *camau gweithredu;*

- y gweithgaredd sydd ei angen i gyflawni'r *camau gweithredu;* a'r

- cynnydd yn erbyn y *camau gweithredu*.

Yn ogystal, wedi'u nodi o dan bob maes mae'r nodau llesiant ehangach y mae'r *camau blaenoriaeth* yn y maes hwnnw yn gwneud cyfraniad tuag at eu cyflawni.

21. Mae rhestr gryno o'r *camau blaenoriaeth* i'w gweld isod (tudalennau 14 i 17) ac yna ceir y manylion am bob cam gweithredu (tudalennau 18 i 48). Bu cynrychiolwyr o'r sector coetir a rhanddeiliaid eraill yn cymryd rhan mewn gweithdy *"Cyflenwi"* ar 15 Hydref, 2015. Pwrpas y gweithdy oedd ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch symud ymlaen gyda chyflenwi'r dyhead o greu coetir 100,000 hectar a'r *camau blaenoriaeth* a nodwyd yn y *Cynllun Gweithredu* hwn. Cafodd trafodaethau'r cynrychiolwyr yn y gweithdy eu cynnwys o fewn y sylwebaeth ar y *camau blaenoriaeth* a nodir isod.

## Camau Blaenoriaeth - Rhestr Gryno

| Maes | Rhif | Cam Blaenoriaeth | Yn cyfrannu tuag at: | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canlyniadau CiG (W4W)** | **Nodau Llesiant** |
| **Iechyd Coed** | **1** | Datblygu a chynnal cofrestr risg o blâu a chlefydau a'u bygythiad i iechyd coed yng Nghymru. | 1; 2; 3; 16; a 18 | • **Cymru lewyrchus;**<br>• **Cymru gydnerth;**<br>• **Cymru iachach;** a<br>• **Chymru gyfrifol yn fyd-eang.** |
| | **2** | Gweithredu'r rhaglen adfer *Phytophthora ramorum*. | | |
| **Cefnogi creu a rheoli coetiroedd** | **3** | Defnyddio'r fframwaith statudol a pholisi yng Nghymru i gyflawni'r gwaith o greu coetiroedd wrth wneud y gorau o'r buddion a ddarperir gan goedwigaeth, coetir a choed. | 1; 2; 3; 4; 5; 6; 7; 8; 9; 10; 11; 13; 14; 15; 16; 18; 19; a 20 | • **Cymru lewyrchus;**<br>• **Cymru gydnerth;**<br>• **Cymru iachach;**<br>• **Cymru fwy cyfartal;**<br>• **Cymru o gymunedau cydlynus;** a<br>• **Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.** |
| | **4** | Rheoli plannu coetiroedd a rhaglenni cynaeafu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i sicrhau bod cynhyrchu pren yn parhau yn y tymor hir. | | |
| | **5** | Darparu mwy o goed a'u diogelu mewn trefi a dinasoedd a chymorth ar gyfer rheoli coed trefol yn gynaliadwy. | | |

| Maes | Rhif | Cam Blaenoriaeth | Cyfrannu tuag at: | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canlyniadau CiG (W4W)** | **Nodau Llesiant** |
| | **6** | Archwilio'r materion sy'n gysylltiedig â galluogi a meithrin gallu grwpiau a mentrau cymunedol  i gymryd rhan mewn rheoli coetiroedd, er mwyn eu helpu i ddefnyddio coetiroedd i wireddu amcanion llesiant. | | |
| **Gwella'r gwaith o reoli a chynhyrchu pren o Gymru a'i fanteision economaidd** | **7** | Hyrwyddo'r defnydd o bren o Gymru, gan gynnwys fel deunydd hanfodol ar gyfer adeiladu cynaliadwy ac yn ganolog i ddarparu tai newydd. | 1; 7; 8; 9; 11; 12; 13; a 15 | • **Cymru lewyrchus;**<br>• **Cymru gydnerth;**<br>• **Cymru fwy cyfartal;**<br>• **Cymru o gymunedau cydlynus;** a<br>• **Chymru gyfrifol yn fyd-eang.** |
| | **8** | Datblygu modelau ar gyfer mentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd a darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, addysg a hyfforddiant ar draws y sector coedwigaeth drwy ddatblygu sgiliau perthnasol yn y sector a darparu profiad gwaith fel llwybrau i gyflogaeth. | | |

| Maes | Rhif | Camau Blaenoriaeth | Cyfrannu tuag at: Canlyniadau CiG (W4W) | Cyfrannu tuag at: Nodau Llesiant |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella cyflwr coetiroedd a choed** | **9** | Archwilio digonolrwydd mesurau a gweithdrefnau presennol ar gyfer diogelu coed gwerthfawr a'r cyfle i'w gwella, yn enwedig coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth. | 1; 2; 3; 4; 5; 6; 7; 8; 10; 16; 17; 18; 19; a 20 | • **Cymru lewyrchus;**<br>• **Cymru gydnerth;**<br>• **Cymru iachach;**<br>• **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a**<br>• **Chymru gyfrifol yn fyd-eang.** |
| | **10** | Parhau i ddod â safleoedd arbennig a nodwyd, Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol ("PAWS"), coetiroedd brodorol a chynefinoedd â blaenoriaeth o dan reolaeth ffafriol ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru ac annog tirfeddianwyr preifat i wneud hynny. | | |
| | **11** | Datblygu, hyrwyddo a gweithredu rhaglenni i reoli rhywogaethau anfrodorol, ymledol sy'n niweidio cynefinoedd coetir. | | |

| Maes | Rhif | Cam Blaenoriaeth | Yn cyfrannu tuag at: | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canlyniadau CiG (W4W)** | **Nodau Llesiant** |
| **Gwerth coedwigaeth, coetiroedd a choed o ran elfennau nad ydynt yn ymwneud â phren** | **12** | Casglu tystiolaeth i fesur a gwerthuso gwerth elfennau nad ydynt yn ymwneud â phren coedwigaeth, coetiroedd a choed yng Nghymru. | 3; 6; 8; 9; 10; a 11 | • **Cymru lewyrchus;**<br>• **Cymru gydnerth;**<br>• **Cymru iachach;**<br>• **Cymru fwy cyfartal;**<br>• **Cymru o gymunedau cydlynus;** a<br>• **Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.** |
| | **13** | Hyrwyddo a gwella mynediad i goedwigaeth a choetiroedd i fwy o bobl gymryd rhan ac elwa o brofiadau hamdden awyr agored yn amlach. Targedu adnoddau mewn ardaloedd lle bydd y buddion iechyd, lles ac economaidd yn cael yr effaith fwyaf. | | |
| **Gweithio ar draws ffiniau'r DU** | **14** | Cymryd rhan yn y Prosiect Llywodraethu Coedwigoedd i lunio'r cynllun ar gyfer cyflenwi swyddogaethau coedwigaeth ar draws ffiniau Prydain yn y dyfodol gan sicrhau bod anghenion Cymru, ac anghenion gweinyddiaethau eraill Prydain Fawr, yn cael eu diwallu. | 2; 3; 5; 6; 13; 14; 16; a 18 | • **Cymru lewyrchus;**<br>• **Cymru iachach;** a<br>• **Chymru fwy cyfartal;** |

MAES Y CAM BLAENORIAETH

***Iechyd Coed***

*Trosolwg*

*Mae gan blâu a chlefydau botensial sylweddol i effeithio ar iechyd coed a choetiroedd ac i danseilio'r Weledigaeth ar gyfer Coetiroedd i Gymru. Dros y degawd diwethaf, mae nifer o blâu a chlefydau newydd wedi cael eu darganfod yn y Deyrnas Unedig ac mae rhai wedi ymsefydlu gyda chanlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol difrifol. Mae dibyniaeth Cymru ar ystod gul iawn o rywogaethau o goed a'r arfer yn y gorffennol o'u tyfu mewn ungnwd yn ein gwneud yn arbennig o agored i effaith plâu a chlefydau, fel y mae effaith Phytophthora ramorum ar goed llarwydd wedi dangos.*

*Mae Strategaeth Iechyd Coed Llywodraeth Cymru yn anelu at "warchod iechyd a bywiogrwydd coed a choetiroedd yng Nghymru drwy strategaethau sy'n allgau, canfod ac ymateb i blâu a phathogenau coed presennol a newydd, boed y rhain o darddiad brodorol neu estron". Mae'r gwaith o gyflenwi'r Strategaeth yn cael ei reoli gan Grŵp Llywio Iechyd Coed Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, ConFor, Cyswllt Amgylchedd Cymru ac eraill ag arbenigedd yn y maes hwn. Ei bwrpas yw rhoi cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru i ddatblygu ei hymateb strategol i achosion o blâu a chlefydau sy'n effeithio ar goed, gan gynnwys eu heffaith ar blanhigion yn yr amgylchedd ehangach. Mae dulliau penodol o reoli P. ramorum a chlefyd Chalara coed ynn (Hymenoscyphus fraxineus) eisoes wedi cael eu rhoi ar waith mewn ymateb i effaith y clefydau hyn yng Nghymru. Yn ogystal, bydd Cynllun Adfer Natur Cymru yn cyflwyno nodau ar gyfer cefnogi bioamrywiaeth a chreu gwydnwch ymysg ecosystemau Cymru.*

| ***Cam Blaenoriaeth 1:*** | ***Datblygu a chynnal cofrestr risg o blâu a chlefydau a'u bygythiad i iechyd coed yng Nghymru.*** |
|---|---|
| *Sefydliadau Arweiniol a Phartneriaid:* | Grŵp Llywio Iechyd Coed Cymru; LlC; CNC; FR; CC; APHA; ConFor; WFBP |
| *Sail y dystiolaeth:* | Mae yna nifer o lwybrau i blâu a chlefydau ddod i mewn i'r DU a bydd effaith ffactorau amgylcheddol, ac yn enwedig newid yn yr hinsawdd, yn cael dylanwad mawr ar ymddygiad a dynameg poblogaeth yr organebau hynny.<br><br>Mae creu a chynnal cofrestr risg ar gyfer Cymru yn ganolog i fonitro bygythiadau presennol ac yn y dyfodol, gan ystyried newid yn yr hinsawdd, a llywio penderfyniadau ynghylch dethol rhywogaethau coed, dulliau effeithiol o reoli iechyd coed a rheoli coetiroedd o dan ymbarél rheoli coetiroedd yn gynaliadwy ac |

| | |
|---|---|
| | ardystio coetiroedd.<br><br>Bydd y gofrestr risg yn ei gwneud yn bosibl i ddatblygu strategaethau rheoli clefydau yn brydlon mewn ymateb i unrhyw fygythiad biotig sy'n dod i'r amlwg i goetiroedd a choed yng Nghymru.<br><br>Bydd LIC / Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd rhan yn y Grŵp Cynghori ar Iechyd Coed ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon i sicrhau bod gan Gymru fynediad at y wybodaeth ddiweddaraf am ddulliau o reoli plâu a chlefydau ar draws gwledydd y DU.<br><br>*Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru"[3]:*<br>• *Rhif 8: Iechyd a gwytnwch coed.* |
| *Gweithgaredd sy'n ofynnol:* | Gweithgaredd craidd LIC a Chyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft, yn cynnwys y rhaglen teithiau awyr i bwrpas gwyliadwriaeth; rhannu gwybodaeth gywir er mwyn sicrhau cefnogaeth ar sail gwybodaeth gan Bartneriaid. |
| *Cynnydd:* | *I'w adrodd yn flynyddol.* |

| | |
|---|---|
| ***Cam Blaenoriaeth 2:*** | ***Gweithredu'r rhaglen adfer Phytophthora ramorum.*** |
| *Sefydliadau Arweiniol a Phartneriaid:* | LLC; Cyfoeth Naturiol Cymru; FR; APHA; ConFor; UKFPA; WFBP; Prif gwmnïau prosesu pren |
| *Sail y dystiolaeth:* | Mae *Phytophthora ramorum (P ramorum)* yn bathogen egsotig tebyg i ffwng y gwyddom sy'n effeithio ar amrywiaeth eang o blanhigion lletyol. Mae'n bresennol mewn nifer o wledydd Ewropeaidd a chafodd ei gadarnhau gyntaf ym Mhrydain Fawr yn 2002. Roedd heintiau cychwynnol mewn meithrinfeydd a gerddi ar rhododendronau a llwyni eraill ac fe ledaenodd wedi hynny yn araf ac ar lefel isel. Yn 2009 cafodd y clefyd ei ganfod ar goed llarwydd, ac mae wedi dod yn gyffredin ar draws y rhan orllewinol o Brydain.<br><br>Mae strategaeth rheoli'r clefyd *P.ramorum*, a ddatblygwyd gan Grŵp Llywio Iechyd Coed Cymru, yn nodi'r dull a ddefnyddir trwy Gymru gyfan tuag at reoli'r clwy, gan dderbyn, oherwydd |

[3] Gweler Rhan 3 "Adrodd ac Adolygu". Gellir gweld y Dangosyddion yn: http://gov.wales/statistics-and-research/woodlands-wales-indicators/?lang=en.

| | |
|---|---|
| | natur y clefyd a'i ddosbarthiad ledled Cymru, nad yw ei ddileu yn opsiwn. Er bod *P.ramorum* yn drychineb i larwydd yng Nghymru, a bod ei reoli yn broblem barhaus i'r sector coetir, mae hefyd yn gyfle i wella strwythur oedran a chynyddu amrywiaeth y rhywogaethau yng nghoetiroedd Cymru i fodloni gweledigaeth *Coetiroedd i Gymru*. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae angen i ailstocio safleoedd mewn ymateb i *P.ramorum* fod gyda rhywogaethau cynhyrchiol o'r tarddiad iawn sy'n gallu cynhyrchu pren i gefnogi'r sector coedwigaeth yn ogystal â bioamrywiaeth ac adeiladu gwytnwch o fewn ecosystemau.<br><br>Mae'r rhaglen adfer yn asesu'r effaith ar bob coetir heintiedig yng Nghymru sydd mewn eiddo cyhoeddus a phreifat, gyda'r nod o alluogi'r coetiroedd hynny i barhau i wneud cyfraniad cadarnhaol at gyflawni agenda Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru a *Choetiroedd i Gymru*.<br><br>*Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru":*<br>• *Rhif 1: Coetiroedd a choed;*<br>• *Rhif 2: Arallgyfeirio mewn coetiroedd;*<br>• *Rhif 3: Rheoli coetiroedd yn gynaliadwy;* a<br>• *Rhif 8: Iechyd a gwytnwch coed.* |
| *Gweithgaredd sy'n ofynnol:* | Gweithgaredd craidd Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru; cyfranogiad gweithredol a chydweithredol gan Bartneriaid; gwybodaeth gywir a diweddaraf; gweithredu Glastir yn llwyddiannus; cyfle o ran gwersi a ddysgwyd i hysbysu'r rheolwyr am unrhyw achos o glefyd yn y dyfodol gan gynnwys o ran cyfathrebu, defnydd o wyddoniaeth dinasyddion a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd |
| *Cynnydd:* | *I'w adrodd yn flynyddol.* |

*<u>Perthynas â blaenoriaethau'r llywodraeth</u>*

*Mae Camau Blaenoriaeth 1 a 2 yn cyfrannu tuag at:*

- *Ganlyniadau Coetiroedd i Gymru" 1; 2; 3; 16; ac 18*.

- *Nodau Llesiant:* ***Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.***

MAES Y CAM BLAENORIAETH

## *Cefnogi creu a rheoli coetiroedd*

<u>*Trosolwg*</u>

*Mae coetiroedd a choed, mewn perchnogaeth gyhoeddus a phreifat, boed mewn amgylcheddau gwledig, ardaloedd o gwmpas trefi neu amgylcheddau trefol, yn gynefinoedd gwerthfawr yn eu rhinwedd eu hunain ac yn rhan annatod o weithrediad amgylchedd Cymru. Maent yn aml o werth tirweddol arwyddocaol ac yn cysylltu pobl a chymunedau at ymdeimlad o le. Mae "Coetiroedd i Gymru" yn nodi polisi Llywodraeth Cymru i osgoi cael gwared diangen ar goetir a chynyddu gorchudd coetir yng Nghymru er mwyn sicrhau y gallai coed a choetiroedd barhau i ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau ar gyfer ecosystemau, gan gynnwys coetiroedd fel adnodd i bobl o safbwynt hamdden, mynediad a mwynderau a choetiroedd fel ffynhonnell deunydd crai yn cefnogi sector coedwigaeth ffyniannus. Ond rhaid ystyried hefyd fod Cymru yn un o'r gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop gyda llawer o'r coetir naturiol yn dameidiog ac yn ynysig.*

*Mae bron i hanner (46%) y coetiroedd yng Nghymru wedi eu hardystio o dan Gynllun y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd ac yn cael eu rheoli o dan Safon Coedwigaeth y DU a'i chasgliad cysylltiedig o ganllawiau. Mae'r rhan fwyaf o'r arwynebedd hwn yn cynnwys yr ystad coetir cyhoeddus a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Ond mae cyfran sylweddol o goetir heb ei reoli neu nid yw'n cael ei reoli'n ddigonol ar hyn o bryd. Yr her yw dod â mwy o goetiroedd, gan gynnwys coetiroedd sy'n fach o ran maint ac yn aml yn dameidiog, dan reolaeth yn unol ag egwyddorion Safon Coedwigaeth y DU. Bydd gwella rhwydweithiau coetiroedd yn cefnogi bioamrywiaeth Cymru ac yn helpu i ddatblygu gwytnwch ecosystemau.*

*Mae'r rhywogaeth iawn o goeden wedi ei phlannu yn y lle iawn ac yn cael ei rheoli'n gywir yn gallu helpu i reoleiddio llif y dŵr, lliniaru llifogydd ac ailgyfeirio llygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth a llygredd aer mewn trefi a dinasoedd. Gall coed leihau erydiad pridd, diogelu storfeydd carbon yn y pridd a chynyddu trylifiad dŵr gan leihau dŵr ffo. Maent yn darparu cysgod i dda byw a chyrsiau dŵr, yn gweithredu fel atalfeydd gwynt a thirlunio, ac yn darparu cynefinoedd gwerthfawr sy'n cefnogi amrywiaeth eang o fioamrywiaeth. Maent yn dal a storio carbon ac yn darparu ffynhonnell adnewyddadwy o ddeunydd, yn ogystal â chynnig cyfleoedd ar gyfer hamdden ac iechyd.*

*Mae Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Cymru, a gyhoeddwyd yn 2010, yn cynnwys dyhead i greu 100,000 hectar (ha) o goetir newydd rhwng 2010 a 2030 fel modd i helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau lleihau allyriadau carbon. Roedd y dyhead yn un o argymhellion allweddol y Grŵp Defnydd Tir a Newid yn yr Hinsawdd. Derbyniwyd yr argymhelliad gan Lywodraeth Cymru fel targed newid hinsawdd i gyrraedd lefelau o leihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru drwy ddal a storio carbon yn y tymor hir. Roedd y dyhead yn golygu plannu 5,000ha o orchudd coetir ychwanegol y flwyddyn o 2010 i 2030, lefel uwch o blannu nag unrhyw lefel a gyflawnwyd erioed o'r blaen yng Nghymru, gan gynnwys plannu ar raddfa fawr yn ystod yr 1950au a'r 1960au. Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru ADAS i*

*adolygu'r targed newid hinsawdd. Argymhellodd ADAS ostyngiad yn y targed i 50,000ha o goetiroedd wedi'u creu i gael eu darparu dros 25 mlynedd hyd at 2040.*

*Mae argymhellion y Grŵp Defnydd Tir a Newid yn yr Hinsawdd ac argymhellion ADAS yn rhagweld creu coetiroedd newydd ar lefel sy'n llawer uwch na'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd dros y blynyddoedd diwethaf: rhwng 2010 a 2015, cafodd 3,203ha o goetir ei greu yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd wedi argymell[4] y dylid ystyried a oes angen mesurau pellach i sicrhau bod targedau plannu coed yn cael eu bodloni - ar sail yr hyn a gyflawnwyd ar hyn o bryd, mae angen dull gwell o sicrhau bod creu coetiroedd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein targedau newid hinsawdd*

*Yn fyr, mae gan goetiroedd y potensial i greu gweithgarwch economaidd, creu cyfleoedd cyflogaeth a gwella bioamrywiaeth a'r modd y mae amgylchedd Cymru yn gweithio. Yn benodol, mae angen i ni wneud ymdrech arbennig i annog ffermwyr a pherchnogion tir a choetiroedd mawr eraill fel awdurdodau lleol, trwy Gymunedau Gwledig - Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, er enghraifft, i ddod â'u coetiroedd dan reolaeth gynaliadwy ar gyfer bioamrywiaeth, pren, tanwydd coed a buddion amgylcheddol eraill. Bydd gweithgaredd o'r fath yn darparu ystod o wasanaethau ecosystemau, yn ogystal â galluogi tirfeddianwyr fel ffermwyr i arallgyfeirio eu busnesau.*

*Ond mae'n rhaid i greu a rheoli coetiroedd gael ei arwain gan yr angen i ddiogelu cynefinoedd lled-naturiol, nodweddion hanesyddol a thirweddau nodweddiadol. Er bod gan "Coetiroedd i Gymru" ragdybiaeth gref yn erbyn cael gwared â choetir yn barhaol, o dan rai amgylchiadau gellir ei gyfiawnhau os oes angen adfer cynefinoedd agored â blaenoriaeth uchel.*

| | |
|---|---|
| ***Cam Blaenoriaeth 3:*** | ***Defnyddio'r fframwaith statudol a pholisi yng Nghymru i sicrhau creu coetiroedd wrth fanteisio i'r eithaf ar y buddion a ddarperir gan goedwigaeth, coetir a choed.*** |
| *Sefydliadau Arweiniol a Phartneriaid:* | Cyfoeth Naturiol Cymru; LlC; FR; ConFor; WFBP; Coed Cadw; Coed Cymru; Llais y Goedwig; Awdurdodau Lleol. |
| *Sail y dystiolaeth:* | Mae Fframwaith Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru ("NRPF") yn ddull o gynllunio a blaenoriaethu rheoli adnoddau naturiol ("NRM") i grynhoi'r gwerth a'r cyfleoedd a gyflwynir gan adnoddau naturiol yng Nghymru a rhaid i goetiroedd wneud cyfraniad mawr at weithredu'r dull hwn. Mae Bil yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru yn anelu at sefydlu fframwaith deddfwriaethol ynghylch y Fframwaith Polisi Adnoddau Naturiol (NRPF) a Rheoli Adnoddau Naturiol (NRM), a fydd yn cefnogi cynllunio ar gyfer creu a rheoli coetiroedd mewn ffordd sy'n |

[4] Argymhelliad 32 o "Reducing emissions and preparing for climate change: 2015 Progress Report to Parliament" (June 2015) (https://www.theccc.org.uk/publication/reducing-emissions-and-preparing-for-climate-change-2015-progress-report-to-parliament/)

ystyried ystod eang o fanteision a ddarperir gan goed. Mae'r gofynion statudol a amlinellir yn y Bil, felly, yn gyfle i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r targed o greu coetir, a bydd angen i'r buddion a ddarperir gan goedwigaeth, coetir a choed gael sylw amlwg wrth i'r ddeddfwriaeth newydd hon gael ei gweithredu.

Mae Bil yr Amgylchedd hefyd yn argymell dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2050 o leiaf 80% yn is na lefelau'r llinell sylfaen. Argymhellir targedau interim er mwyn darparu llwybr priodol i gyflawni hyn, a fydd yn darparu cyfeiriad ar gyfer cyllidebau carbon ar gyfanswm yr allyriadau y gellir eu hallyrru yng Nghymru. Bydd cyllidebau carbon yn cael eu gosod am gyfnodau penodol, a elwir yn gyfnodau cyllidebol, gan ddechrau ar gyfer 2016-2020 ac wedyn bob pum mlynedd hyd at 2050. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cyfnod a gwmpesir gan y cynllun hwn, a bydd creu a rheoli coetiroedd yn chwarae rhan bwysig o ran cyrraedd cyllidebau carbon, y targedau allyriadau interim a tharged allyriadau 2050. Bydd cyllidebau carbon yn gymhelliant i blannu coed gan fod costau defnyddio coed i dynnu carbon yn cymharu'n ffafriol â chostau opsiynau atal eraill.  Bydd cyllidebau yn cael eu gosod ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael a fydd yn ei thro yn sail ar gyfer gosod targedau ar gyfer creu coetiroedd yn y dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod fframwaith y bydd cyrff cyhoeddus penodol Cymru yn ceisio cyflawni nodau llesiant o'i mewn er mwyn gwella lles yn awr ac yn y dyfodol (gweler Atodiad 2). Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer datblygu dangosyddion cenedlaethol a fydd yn mesur y gwahaniaeth a wneir i lesiant Cymru dros gyfnod o amser[5]. Bydd rheoli a chreu coedwigaeth a choetiroedd yn gwneud cyfraniad sylfaenol i lesiant a sut mae anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Cyfeiriwyd eisoes at ddyhead Strategaeth Newid Hinsawdd Cymru i greu 100,000 hectar (ha) o goetir newydd rhwng 2010 a 2030 fel modd i helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau lleihau allyriadau carbon.  Mae'r dyhead hwn yn cydnabod y potensial i goed a choetiroedd ddal a storio carbon.  Bydd y fframwaith statudol a pholisi sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru, yn ogystal â storio carbon, yn pwysleisio amrywiaeth y buddion eraill i gymdeithas a bioamrywiaeth y gallai coed a choetiroedd eu

[5] Mae'r gyfres o ddangosyddion cenedlaethol yn cael ei datblygu

darparu.

Ystyriodd y sector coetiroedd a rhanddeiliaid eraill y dyhead o ran newid yn yr hinsawdd yn y gweithdy "*Cyflenwi*".[6] Cafodd plannu coed ei gydnabod fel mesur sylweddol i ddal a storio carbon a fydd yn cyfuno â mesurau eraill, er enghraifft adfer mawndiroedd, i gyfrannu at gyrraedd targed lleihau allyriadau carbon cyffredinol Cymru. Bydd effaith gyfunol mesurau o'r fath yn cael effaith ar gyfanswm nifer y coed a'r ardal o goetir y bydd eu hangen i gyflawni'r lleihad a ddymunir mewn allyriadau carbon. Bydd y fframwaith cyllidebu carbon sy'n cael ei ddatblygu drwy Fil yr Amgylchedd yn dylanwadu ar raddfa'r gwaith o blannu coed newydd a mesurau eraill sydd eu hangen i gydbwyso allyriadau carbon.

Nododd cynadleddwyr yn y gweithdy nad yw'r dyhead o ran newid yn yr hinsawdd yn cydnabod y manteision eraill a fydd yn deillio o blannu'r goeden iawn yn y lle iawn am y rhesymau iawn. Bydd plannu coed "clyfar" yn canolbwyntio ar yr ystod eang o fanteision y gall coed eu darparu, gan gynnwys dal a storio carbon. Roedd plannu yn agos at drefi a dinasoedd yn cael ei weld fel ffordd o sicrhau manteision cymunedol gan gynnwys gweithgareddau hamdden awyr agored a chyfleusterau ar gyfer perllannau, rhandiroedd a gerddi cymunedol. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen gwahanol alluogwyr, prosesau a chymhellion o gymharu â'r rhai sydd wedi bod yn eu lle yn draddodiadol i gefnogi plannu coed ar dir sydd o safon isel o safbwynt cynhyrchu amaethyddol. Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael ei hystyried fel un galluogwr o'r fath, sef gweithredu fel cymhelliant i gyrff cyhoeddus gydweithio ag eraill, gan gynnwys y sector adeiladu a'r trydydd sector, er mwyn gwireddu'r ystod o fuddion y gallai coed eu darparu. Mae gan blannu coed a chreu coetiroedd y gallu felly i helpu cyrff cyhoeddus i wneud y gorau o'u cyfraniad i gyflawni'r nodau llesiant a nodir yn y Ddeddf.

Daeth cynadleddwyr i'r casgliad y bydd nod tymor byr ar gyfer creu coetiroedd yn darparu ffocws ar gyfer gweithgaredd wrth i gyllidebu carbon gael ei sefydlu yng Nghymru. Roedd y cynadleddwyr o'r farn y bydd cyfle yn ystod y cyfnod hwn i asesu lefel y plannu coed a mesurau eraill y bydd eu hangen i gyflawni targedau lleihau allyriadau carbon Cymru, ynghyd â'r amserlenni ar gyfer sicrhau bod mesurau o'r fath yn effeithiol o ran eu gallu i ddal a storio carbon.

Er mwyn creu coetir, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed tymor byr newydd yn ystod oes y Cynllun Gweithredu hwn o 10,000ha o goetir newydd i'w creu erbyn 2020. Bydd hyn yn gofyn am blannu cyfartaledd o 2,000ha o goed y flwyddyn. Y

[6] Gweler paragraff 21.

prif offer ar gyfer cyflawni'r targed hwn fydd cyllid drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig trwy gyllid uniongyrchol ar gyfer creu coetiroedd a thrwy annog cydweithredu rhwng perchnogion tir yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i blannu coed ychwanegol. O ran cyllid uniongyrchol, agorodd Llywodraeth Cymru Gynllun Creu Coetiroedd diwygiedig Glastir mor fuan â phosibl yn dilyn cymeradwyaeth y Cynllun Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r cyfnod ymgeisio ar gyfer y Cynllun newydd wedi creu cynnydd sylweddol yn y galw o gymharu â blynyddoedd blaenorol, sy'n adlewyrchu gwelliannau a wnaed i'r Cynllun i gynyddu ei hyblygrwydd a'i ddiddordeb i ymgeiswyr posibl.

Mae'r targed tymor byr yn gosod nod heriol yng nghyd-destun creu coetiroedd a gyflawnwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n rhoi cyfle dros gyfnod o amser i osod targed creu coetir diwygiedig wrth i'r fframwaith statudol a pholisi yng Nghymru ddatblygu sy'n cydnabod yr amrywiaeth o fuddion sy'n cael eu darparu gan goed - nid yn unig o ran cyfaint y carbon sy'n cael ei storio trwy blannu blociau o goetir traddodiadol ond hefyd o ganlyniad i blannu "clyfar" i helpu i wireddu'r ystod o wasanaethau ecosystem a manteision cymunedol y gallai coetiroedd a choed eu darparu.[7]

Mae'r weithred hon yn cydnabod y cyfle i sicrhau bod y buddion a ddarperir gan goed yn cael eu deall yn glir a bod cyrff cyhoeddus mewn sefyllfa dda i wneud y gorau o'r manteision hynny yn y tymor hir. Bydd dangosyddion yn llywio camau gweithredu tuag at blannu coed mewn ffyrdd sy'n darparu'r budd cymdeithasol ac amgylcheddol mwyaf yn y tymor hir, fel y gall coed barhau i helpu economïau gwledig, cloi carbon, helpu i leihau'r perygl o lifogydd, gwella ansawdd yr aer mewn ardaloedd trefol a darparu mannau sy'n gallu helpu i wella iechyd corfforol a meddyliol.

Bydd angen offer i alluogi cyrff cyhoeddus i wneud penderfyniadau a allai alluogi i'r manteision amrywiol hyn gael eu cyflawni. Bydd ar bartneriaid cyflenwi angen y cyngor a'r offer gwneud penderfyniadau gorau sydd ar gael i roi gwybod sut y maent yn bodloni eu hamcanion lles trwy greu a rheoli coetiroedd.

*Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru":*

- *Rhif 1: Coetiroedd a choed;*
- *Rhif 2: Arallgyfeirio mewn coetiroedd;*

[7] Croes gyfeirio i PA5 a 6.

| | |
|---|---|
| | • *Rhif 3: Rheoli coetiroedd yn gynaliadwy;*<br>• *Rhif 5: Coetir Ffermydd;*<br>• *Rhif 6: Coetiroedd a choed trefol;*<br>• *Rhif 7: Cydbwysedd carbon[8];*<br>• *Rhif 8: Iechyd coed*<br>• *Rhif 11: Hamdden;*<br>• *Rhif 12: Hygyrchedd*<br>• *Rhif 21: Coetir fel pwysau ar Ddŵr;* a<br>• *Rhif 22: Coetiroedd fel ateb ar gyfer rheoli dŵr.* |
| *Gweithgaredd sy'n ofynnol:* | Gweithgaredd craidd Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus penodedig i fwrw ymlaen â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a sicrhau bod tystiolaeth a gwybodaeth briodol ar gael i fod yn sail i blannu coed 'craff'. Gweithgaredd craidd Cyfoeth Naturiol Cymru a LlC i weithredu'r Fframwaith Polisi Adnoddau Naturiol a chefnogi datblygiad a chyflenwi cyllidebau carbon; adolygiad LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru o rôl a phwrpas Ystad Goed Llywodraeth Cymru; cyfeiriad ac arweinyddiaeth gan bartneriaid i gefnogi gweithrediad. Gyda'n partneriaid, datblygu offer i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i adnabod a gwella'r buddion a ddarperir gan goedwigaeth, coetiroedd a choed sy'n cefnogi Rheoli Adnoddau Naturiol integredig ac yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant, er enghraifft, y rôl y gallai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu chwarae i hwyluso creu coetiroedd yn arbennig ar dir sy'n eiddo i'r cyhoedd. |
| *Cynnydd:* | *I'w adrodd yn flynyddol.* |

| | |
|---|---|
| ***Cam Blaenoriaeth 4:*** | ***Rheoli plannu coetiroedd a rhaglenni cynaeafu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i sicrhau bod cynhyrchu pren yn parhau yn y tymor hir.*** |
| *<u>Sefydliadau Arweiniol</u> a Phartneriaid:* | LlC; Cyfoeth Naturiol Cymru; WFBP; ConFor; UKFPA; FR; contractwyr coedwigaeth a busnesau prosesu pren. |
| *Sail y dystiolaeth:* | Mae gan y sector coedwigaeth yng Nghymru Werth Ychwanegol Crynswth blynyddol ("GVA") o £499.3 miliwn. O hyn, gellir priodoli £25.2 miliwn i goedwigaeth a logio, a gellir priodoli £173.8 miliwn i weithgynhyrchu pren a chynhyrchion. Mae'r |

[8] Cydbwysedd Carbon" yw'r dangosydd cyfredol yn *Coetiroedd i Gymru* sy'n mesur stociau carbon ym mhridd, biomas a chynhyrchion coed coetiroedd. Bydd dal a storio carbon mewn coedwigoedd, coetiroedd a choed, maes o law, yn cael ei gyfrifo yn unol â'r gyfundrefn cyllidebu carbon.

sector coedwigaeth yn ei chyfanrwydd yn cyflogi rhwng 8,500 ac 11,300 o bobl[9] .

Yn seiliedig ar blannu coetir, cynlluniau cynaeafu a thybiaethau ynghylch twf ar hyn o bryd, mae data rhagolwg 50 mlynedd yr NFI o argaeledd pren meddal yn dangos bod yna fwlch sylweddol mewn cyflenwadau pren meddal yn y tymor canolig i'r tymor hir. Mae'r rhesymau am hyn yn amrywiol gan gynnwys creu cynefinoedd agored, adfer PAWS a phwyslais ar blannu coed llydanddail. Mae perygl y gallai'r bwlch hwn yn wir ehangu oherwydd yr angen am arallgyfeirio rhywogaethau i sicrhau gwytnwch y coedwigoedd er mwyn addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd ac i'r peryglon a berir gan blâu a chlefydau coed.

Mae gan y diffyg a ragwelir mewn argaeledd pren meddal y potensial i effeithio ar economi Cymru yn nhermau llai o fuddsoddiad yn y sector coedwigaeth a llai o gyfleoedd cyflogaeth yn cael eu creu.

Mae Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, ConFor a WFBP wedi cytuno ar "Ddeg Maes ar gyfer Gweithredu" ar gyfer adnodd coedwigoedd Cymru ac mae hyn yn cynnwys gweithredu i wella'r gwaith o reoli cynhyrchu a chyflenwi pren gan Ystad Goed Llywodraeth Cymru ac Adnodd Coedwig Cymru. Mae Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn cyfrif am ddwy ran o dair o'r coetiroedd conwydd yng Nghymru a bydd yr adolygiad i'w rôl a'i bwrpas hefyd yn berthnasol i fater gwell rheolaeth ar gynhyrchu a chyflenwi pren.

Mae yna nifer o ffactorau eraill i'w hystyried wrth ymdrin â'r mater, yn creu coetiroedd[10] a rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy - gan gynnwys y posibilrwydd o sicrhau bod mwy o goetiroedd yn cynhyrchu drwy reolaeth a chylchoedd cylchdroi cnydau mwy effeithiol (fel technegau coedwigaeth gorchudd di-dor, systemau coedwrol nad ydynt yn cael effaith fawr neu dechnegau coedwigaeth cylchdro byr). Mae data ar nodweddion ac addasrwydd rhywogaethau coed amgen y gellir eu plannu ar gyfer coedwigaeth i gynhyrchu yn holl bwysig hefyd. Bydd angen asesu hyn i gyd wrth ddatblygu'r polisi er mwyn sicrhau bod y sector coedwigaeth yn parhau i fod yn gystadleuol ac yn broffidiol a'r buddion lluosog a ddarperir gan goedwigoedd, coetiroedd a choed Cymru.

*Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru":*

- *Rhif 1: Coetiroedd a choed;*
- *Rhif 3: Rheoli coetiroedd yn gynaliadwy;*
- *Rhif 4: System Rheoli:*

[9] Dangosyddion Coetiroedd i Gymru a ryddhawyd 2014-15
[10] Croes gyfeirio at PA3

| | |
|---|---|
| | • *Rhif 5: Coetir Ffermydd;*<br>• *Rhif 14: Defnyddio pren o Gymru;*<br>• *Rhif 15: Gwerth y sector coedwigaeth;* a<br>• *Rhif 16: Y galw am bren.* |
| *Gweithgaredd sydd ei angen:* | Cyfeiriad, arweinyddiaeth ac adnoddau gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau dull partneriaeth gydweithredol i ddarparu rheoleiddio effeithiol a chymesur, hwyluso treialon ar gyfer dadansoddi ac annog tirfeddianwyr y mae arnynt eisiau plannu coetir; hyrwyddo'r map cyfleoedd ar gyfer coetir fel canllaw i dirfeddianwyr a rheolwyr tir, gan gynnwys ffermwyr, ynghylch yr ardaloedd hynny sydd fwyaf addas i greu coetiroedd newydd; LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru i wneud adolygiad o rôl a phwrpas Ystad Goed Llywodraeth Cymru; cyllid grant ar gyfer creu a rheoli coetiroedd trwy weithredu Glastir yn llwyddiannus. |
| *Cynnydd:* | *I'w adrodd yn flynyddol.* |

| | |
|---|---|
| ***Cam Blaenoriaeth 5:*** | ***Darparu mwy o goed a diogelu'r rhai sy'n bodoli eisoes mewn trefi a dinasoedd a chefnogi rheoli coed trefol yn gynaliadwy.*** |
| *Sefydliadau Arweiniol a Phartneriaid:* | LlC; Cyfoeth Naturiol Cymru; awdurdodau lleol; Coed Cadw; Coed Cymru; FR; Llais y Goedwig; Byrddau Iechyd Lleol; landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod; Ymddiriedolaethau Archaeolegol |
| *Sail y dystiolaeth:* | Mae corff cynyddol o dystiolaeth yn dangos bod seilwaith gwyrdd trefol deniadol wedi'i gynnal yn dda yn hanfodol i gynyddu faint o amser y mae pobl yn ei dreulio yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored iachusol. Yn ogystal, gallai seilwaith gwyrdd gyfrannu at gydlyniad cymunedol drwy helpu i feithrin balchder mewn cymunedau lleol ac ymdeimlad o berchnogaeth trwy greu gweithgareddau gwirfoddoli i bobl leol. Gallai seilwaith gwyrdd fod ar wahanol ffurfiau: caeau chwarae; gwarchodfeydd natur; gerddi cymunedol, rhandiroedd a pherllannau[11], a choed.<br><br>Mae coed mewn lleoliadau trefol yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu amgylchedd adeiledig glân, deniadol a gwydn boed hynny mewn dinasoedd a threfi mawr neu aneddiadau trefol bach. Mae tystiolaeth o blaid plannu coed trefol wedi dangos rôl coed o ran lleihau llygredd aer, rheoleiddio rhag llifogydd |

[11] Croes gyfeirio i PA6

trefol,lleihau tymheredd arwynebau a darparu cynefin gwerthfawr i fywyd gwyllt a phryfed peillio sy'n hanfodol ar gyfer ecosystemau trefol sy'n gweithredu'n iach[12]. Fel mewn ardaloedd gwledig, mae coed mewn lleoliadau trefol yn debygol o ddod yn arfau pwysig mewn ymdrechion yn y dyfodol i addasu i hinsawdd sy'n newid a gwella lles a safonau byw yr un pryd, er enghraifft, fel ffordd o fynd i'r afael ag afiechydon cyffredin fel asthma.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi casglu tystiolaeth o blaid y gwaith o reoli coed trefol a sicrhau mwy o goed mewn ardaloedd trefol. Mae astudiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru *"Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru"* yn rhoi dadansoddiad o'r gorchudd canopi yn ein trefi a'n dinasoedd. Roedd gorchudd canopi coed trefol yng Nghymru yn 16.8% yn 2009 - yn y canol o ran safleoedd gwledydd y byd ond yn is na'r lefel o 20% o orchudd o ddiffiniad coetir yr UKFS.

Gallai plannu coed trefol gynnig ystod o wasanaethau ecosystem a manteision cymunedol, yn ogystal â chyfrannu at ddal a storio carbon[13]. Mae astudiaethau diweddar i-Tree Eco yn Wrecsam, Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe a dalgylch Tawe wedi dangos gwerth coed trefol. Bob blwyddyn, mae coed yn yr ardaloedd hynny yn dod â buddion gwerth £3.9 miliwn drwy: gael gwared ar 258 tunnell o lygredd; ailgyfeirio 654 miliwn litr o lawiad; a dal 6,409 tunnell o garbon o'r atmosffer. Yn ogystal, mae'r boblogaeth o goed yn storio 222,000 tunnell o garbon.

Gan adeiladu ar hyn, a thrwy weithio mewn partneriaeth â chynllunwyr, awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol eraill, mae cyfle i wella ansawdd amgylcheddol yr ardaloedd yng Nghymru lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw drwy fabwysiadu dull strategol o reoli coed trefol a chefnogi'r gwaith o reoli coed trefol yn gynaliadwy. Mae plannu coed newydd fel rhan o gynlluniau Draenio Trefol Cynaliadwy wedi helpu i wireddu buddion lluosog. Er enghraifft, roedd cynllun SUDs Ysgol Stebonheath, Llanelli yn cynnwys elfen helaeth o goed newydd a phlannu cysylltiedig. Yn ogystal â chynnig manteision amgylcheddol cynhenid, mae'r cynllun yn cynnig cyfle i'r plant ysgol astudio coed yn eu hamgylchedd lleol uniongyrchol. Mae awdurdodau cynllunio lleol eraill yn cynhyrchu canllawiau cynllunio atodol i helpu i roi canllawiau i ddatblygwyr a'r cyhoedd

[12] Gweler y "Cynllun Gweithredu ar gyfer pryfed peillio yng Nghymru" (http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/action-plan-for-pollinators/?lang=cy

[13] Croes gyfeirio at PA3.

| | |
|---|---|
| | ynghylch y manteision niferus a allai ddod yn sgil mabwysiadu strategaeth seilwaith gwyrdd.<br><br>*Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru":*<br>• *Rhif 6: Coetiroedd a choed trefol;*<br>• *Rhif 9: Buddion lleol coetiroedd i gymunedau lleol;*<br>• *Rhif 11: Hamdden;* a<br>• *Rhif 23: Treftadaeth a thirwedd.* |
| *Gweithgaredd sydd ei angen:* | Cyfeiriad ac arweinyddiaeth gan gyrff arweiniol, gan gynnwys drwy thema Cyfoeth Naturiol Cymru "Da i Bobl"[14]; cydweithio i gyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ddefnyddio tir cyhoeddus; addysg, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, er mwyn codi ymwybyddiaeth o fanteision cadarnhaol o ddiogelu a chynyddu gorchudd coed trefol; ymgysylltu â chymunedau a grwpiau gwirfoddol i sicrhau cefnogaeth i orchudd coed trefol cynaliadwy; ymgyrch hyrwyddo Coed Cadw a fydd yn cael ei lansio yn 2015; Cydweithredu gyda phartneriaid; rhannu gwybodaeth, tystiolaeth ac arbenigedd. |
| *Cynnydd:* | *I'w adrodd yn flynyddol.* |

| | |
|---|---|
| ***Cam Blaenoriaeth 6:*** | ***Archwilio'r materion sy'n gysylltiedig â galluogi a meithrin gallu grwpiau a mentrau cymunedol i gymryd rhan mewn rheoli coetiroedd, er mwyn eu helpu i ddefnyddio coetiroedd i wireddu amcanion llesiant.*** |
| *Sefydliadau Arweiniol a Phartneriaid:* | Cyfoeth Naturiol Cymru; Llais y Goedwig; Coed Cadw; Ffederasiwn Ffermydd a Gerddi Dinesig; Gwasanaeth Ymgynghorol Tir Cymunedol; Cwmni Buddiannau Cymunedol y Cymoedd Gwyrdd; Groundwork Cymru; Cadwch Gymru'n Daclus; Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol (fel Interlink RhCT); clystyrau Cymunedau yn Gyntaf; Ymddiriedolaethau Archeolegol; LlC |
| *Sail y dystiolaeth:* | Mae GYC (GVA) a chyflogaeth yn y sector coedwigaeth sy'n cael ei gefnogi gan goetir yn cael ei nodi yn y sail dystiolaeth ar gyfer PA4. Mae coetir hefyd yn adnodd gwerthfawr i gymunedau ac yn gallu darparu ystod o fuddion posibl. Gall coetir gael ei ddefnyddio ar gyfer cyfleoedd hyfforddi, mentrau |

[14] Gweler Cynllun Busnes Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015/2016 ac Ymrwymiad P3

newydd a chynlluniau iechyd a llesiant yn ystod oriau hamdden. Trwy'r broses "*Coetiroedd a Chi*"[15], mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi cyfle i bobl a chymunedau gyflwyno cynigion ar gyfer gweithgareddau, digwyddiadau neu brosiectau ar neu sy'n cynnwys Ystad Coetir Llywodraeth Cymru.

Mae yna faterion o bwys i'w harchwilio o ran galluogi grwpiau cymunedol i gymryd rhan mewn rheoli coetiroedd. Mae gan grwpiau cymunedol strwythurau gwahanol. Mae ganddynt anghenion, disgwyliadau a sgiliau amrywiol sy'n aml yn gofyn am lefelau gwahanol o gymorth i sicrhau bod eu cyfranogiad yn y tymor hir yn gynaliadwy. Gallai eu disgwyliadau fod yn wahanol, yn amrywio o gymryd rhan mewn gweithgarwch rheoli coetir ymarferol, cyfleoedd i wirfoddoli hyd at drosglwyddo cyfrifoldeb dros goetiroedd a'u rheolaeth. Ond efallai y gallai cyfranogiad y gymuned fod yn fodd i gynyddu rheolaeth weithredol ardaloedd o goetir nad ydynt yn cael eu rheoli'n ddigonol ar hyn o bryd.

Mae gan goetiroedd botensial hefyd fel adnodd neu ased i gymunedau er mwyn eu helpu i gwrdd ag amcanion eraill sy'n allweddol i'w llesiant parhaus. Er enghraifft, mae tyfu bwyd yn lleol wedi dod yn fwyfwy poblogaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae gan dyfu cymunedol gysylltiadau â materion fel diwylliant bwyd, iechyd a llesiant, diogelwch bwyd a chydlyniant cymunedol[16]. Mae argaeledd tir yn ffactor sy'n cyfyngu sylweddol wrth hyrwyddo tyfu cymunedol. Gellir gwerthuso i ba raddau y gellir cael gerddi cymunedol, rhandiroedd a pherllannau ar dir coedwig (boed yn dir cyhoeddus neu'n dir sydd mewn eiddo preifat) i gefnogi manteision gwerthfawr tyfu cymunedol - mae yna enghreifftiau o dir a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhandiroedd cymunedol ym Mlaencwm yng nghwm Rhondda Fawr, ardal Cymunedau yn Gyntaf.

Mae LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi cychwyn adolygiad o rôl a phwrpas Ystad Goed Llywodraeth Cymru, sy'n cyfrif am ddwy ran o dair o'r coetiroedd conwydd yng Nghymru ac mae'r adolygiad hwnnw yn berthnasol i gyflawni'r Cam Blaenoriaeth hwn.

*Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru":*

---

[15] Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu cynllun newydd, “Mynediad”, i alluogi mynediad at dir y mae’n ei reoli ar gyfer amrediad o weithgareddau, prosiectau a mentrau cymdeithasol a masnachol.
[16] Gweler strategaeth fwyd Cymru, "Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020" (http://www.physicalactivityandnutritionwales.org.uk/Documents/740/Food%20Strategy%202010-2020-cy.pdf) a "Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned" (http://gov.wales/topics/environmentcountryside/foodanddrink/foodpolicyandstrategy/comgrownfoodactionplan1/?lang=cy).

| | |
|---|---|
| | • *Coed Cadw  Cynnwys y gymuned*; a<br>• *Rhif 13:  Mentrau lleol.* |
| *Gweithgaredd sy'n ofynnol:* | Cyfeiriad ac arweinyddiaeth gan y cyrff arweiniol a Phartneriaid i gefnogi grwpiau cymunedol oresgyn rhwystrau i gymryd rhan yn y gwaith o reoli coetir; adolygiad LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru o rôl a phwrpas Ystad Goed Llywodraeth Cymru;  cydweithio mewn partneriaeth i gyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gyflawni canlyniadau ar gyfer y Cam Gweithredu fel eiriolaeth, hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli ac ymgysylltu â'r gymuned; i gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant drwy waith cyrff craidd amgylcheddol a ariennir gan Lywodraeth Cymru; Rhaglen Cynefin; y Gwasanaeth Cynghori Tir Cymunedol i gyfeirio grwpiau cymunedol at gyfleoedd ar gyfer rhandiroedd cymunedol a pherllannau ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru;  ymchwil i ddarparu tystiolaeth; rhannu gwybodaeth. |
| *Cynnydd:* | *I'w adrodd yn flynyddol.* |

*<u>Perthynas â blaenoriaethau'r llywodraeth</u>*

*Mae Camau Blaenoriaeth 3, 4, 5, a 6 ayn cyfrannu tuag at:*

- *Ganlyniadau Coetiroedd i Gymru"  1; 2; 3; 4; 5; 6; 7; 8; 9; 10; 11; 13; 14; 15; 16; 18; 19; a 20*

- *Nodau Llesiant:*  ***Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus;*** a ***Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.***

MAES Y CAM BLAENORIAETH

**_Gwella'r gwaith o reoli a chynhyrchu pren o Gymru a'i fuddion economaidd._**

_Trosolwg_

*Mae coetiroedd a choed yng Nghymru yn darparu buddion economaidd pwysig, nid yn lleiaf fel ffynhonnell o ddeunydd cynaliadwy ar gyfer adeiladu. Mae hyn nid yn unig yn fudd i dyfwyr a phroseswyr sylfaenol pren, ond hefyd ar gyfer y sector adeiladu ehangach o ran cyfleoedd cyflogaeth sgilgar yn y dyfodol. Mae gan weithgarwch economaidd yng nghoetiroedd Cymru'r potensial i ysgogi rheolaeth gynaliadwy ar goetiroedd a fydd yn helpu i gefnogi sector coedwigaeth ffyniannus a sicrhau twf gwyrdd, trechu tlodi a darparu adnodd hamdden gwerthfawr ar gyfer pobl Cymru.*

| **_Cam Blaenoriaeth 7:_** | **_Hyrwyddo defnyddiau a'r modd y defnyddir pren o Gymru, gan gynnwys fel deunydd hanfodol ar gyfer adeiladu cynaliadwy sy'n ganolog i ddarparu tai newydd._** |
|---|---|
| _Sefydliadau Arweiniol_ _a Phartneriaid:_ | LIC (gweithgor trawsadrannol sy'n cynnwys EST, Tai ac Adnoddau Naturiol); WFBP (a'r Grŵp Pren mewn Tai a weinyddir gan WFPB); Coed Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru; Ymchwil Coedwigaeth; Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig. |
| _Sail y dystiolaeth:_ | Mae _Coetiroedd i Gymru_ yn cydnabod rôl holl bwysig pren o Gymru wrth gefnogi twf diwydiannau coedwigaeth Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Yn ei dro, gall gweithgarwch economaidd yng nghoetiroedd Cymru weithredu fel symbyliad i reoli coetiroedd yn gynaliadwy yn y tymor hir sydd nid yn unig yn cefnogi'r sector coedwigaeth, ond hefyd yn dod â nifer o fuddion ehangach.<br><br>Mae "Tyfwyd ym Mhrydain" yn enghraifft o fenter a gynlluniwyd i hyrwyddo'r rôl y mae pren o Brydain yn ei chwarae heddiw ac annog mwy o ddealltwriaeth o rôl rheoli coetiroedd yn gynaliadwy. Ond mae rhwystrau i'r defnydd o goed cynhenid yng Nghymru. O ran ei ddefnydd fel deunydd cynaliadwy ar gyfer adeiladu, mae gwendid cymharol y gadwyn gyflenwi o'i gymharu â chadwyni cyflenwi sefydledig, ac sy'n cystadlu, ar gyfer deunyddiau eraill a ddefnyddir mewn adeiladu yn rhwystr sylweddol i'r defnydd o bren mewn tai. Mae cydymffurfio â gofynion caffael, yn enwedig i awdurdodau cyhoeddus sy'n ymwneud â darparu tai cymdeithasol, yn rhwystr hefyd.<br><br>Mae cydrannau pren peirianyddol lleol yn gallu darparu cynnyrch a dulliau adeiladu cynaliadwy. Felly, mae angen mwy o weithgarwch addysgol ar lefelau addysg bellach ac uwch er mwyn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo galluoedd technegol |

| | |
|---|---|
| | pren domestig ymhlith myfyrwyr pensaernïaeth, peirianneg sifil a strwythurol, adeiladu ac yn y blaen, a thrwy hynny helpu i ysgogi'r galw am bren yn y cartref a chynhyrchion pren. Un enghraifft yw hyrwyddo'r defnydd o bren fel deunydd ar gyfer adeiladu. Mae'r gwaith hyrwyddo yn cynnwys rhoi gwybodaeth am nodweddion rhywogaethau o goed ac ansawdd y pren y maent yn ei gynhyrchu, yn ogystal â sut i gael gafael arnynt, er mwyn bod yn sail i benderfyniadau busnes effeithiol. Yn ogystal, mae manteision ehangach sy'n deillio o ddefnyddio coed fel adnodd naturiol cynaliadwy, gan gynnwys dal a storio carbon yn y tymor hir o ddefnyddio pren fel deunydd adeiladu.<br><br>*Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru":*<br>• *Rhif 13: Mentrau Lleol;*<br>• *Rhif 14: Defnyddio pren o Gymru;*<br>• *Rhif 15: Gwerth y sector coedwigaeth;* a<br>• *Rhif 16: Y galw am bren.* |
| *Gweithgaredd sy'n ofynnol:* | Arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru i hwyluso cydweithio drwy dynnu rhanddeiliaid at ei gilydd i ddatgloi rhwystrau, annog cydweithrediad a nodi cyfleoedd fel dull o gyfrannu at gyflawni nodau llesiant; cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni gan Bartneriaid,. |
| *Cynnydd:* | *I'w adrodd yn flynyddol.* |

| | |
|---|---|
| ***Cam Blaenoriaeth 8:*** | ***Datblygu modelau ar gyfer mentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd a darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, addysg a hyfforddiant ar draws y sector coedwigaeth drwy ddatblygu sgiliau sy'n berthnasol i'r sector a darparu profiad gwaith fel llwybrau i gyflogaeth.*** |
| *Sefydliadau Arweiniol a Phartneriaid:* | LlC; Cyfoeth Naturiol Cymru; Coed Cymru; Llais y Goedwig; Coed Lleol; ConFor; UKFPA; LlC; Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig, Focus on Forestry First; Lantra; gwasanaethau gyrfaoedd.. |
| *Sail y dystiolaeth:* | Mae coetiroedd a choed iach a gwydn yn darparu'r sylfaen ar gyfer y sector coedwigaeth. Mae llawer o enghreifftiau o fentrau sy'n cael eu cefnogi gan goetiroedd, gan gynnwys cynhyrchwyr, contractwyr coedwigaeth arbenigol a phroseswyr sylfaenol ac eilaidd.<br><br>Ond er mwyn ffynnu, mae ar y sector angen pobl gydag amrediad eang o sgiliau: sgiliau ymarferol ar gyfer tyfu, cynnal, |

| | |
|---|---|
| | cynaeafu a phrosesu pren; sgiliau rheoli i sicrhau stiwardiaeth amgylcheddol dda; ac asiantau ac entrepreneuriaid gyda sgiliau busnes cadarn. Bydd sector coedwigaeth bywiog a choetiroedd a choedwigoedd wedi'u rheoli'n dda yn dod â buddion a chyfleoedd ehangach sy'n gofyn am bobl sydd â sgiliau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, gweithgareddau hamdden arbenigol a gwaith cymunedol ehangach.<br><br>Ar hyn o bryd mae prinder sgiliau a bylchau ar draws y rhan fwyaf o'r sector coedwigaeth a diffyg cyfleoedd i aelodau newydd ymuno â'r farchnad. Gallai mentrau fel prentisiaethau helpu trwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi sy'n cydredeg â chyflogaeth ac sy'n rhoi sgiliau i bobl ifanc y gallant eu defnyddio mewn mannau eraill yn y sector. Yn ogystal â hyn, mae angen cyfleoedd i weithwyr proffesiynol a rheolwyr yn y sector coedwigaeth ddatblygu sgiliau i fodloni anghenion y sector yn y dyfodol.<br><br>Mae cyfleoedd i wirfoddoli mewn coetiroedd yn ffordd arall o ddatblygu sgiliau perthnasol ar gyfer y sector. Drwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector, mae yna gyfle i annog mwy o ddefnydd o goetiroedd ar gyfer addysg a hyfforddiant, yn ogystal ag i fodloni nodau llesiant[17]. Mae lle i annog busnesau bach a newydd sy'n seiliedig ar goetiroedd, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, i gael mynediad at elfennau cymorth cymunedol Cynllun Datblygu Gwledig – Cymunedau Gwledig a gwasanaethau eraill i gefnogi eu modelau busnes.<br><br>*Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru":*<br>• *Rhif 9: Buddion lleol coetiroedd;*<br>• *Coed Cadw Cynnwys y gymuned;*<br>• *Rhif 13: Mentrau Lleol;* a<br>• *Rhif 17: Iechyd busnes yn y sector coedwigaeth.* |
| *Gweithgaredd sydd ei angen:* | Arweiniad gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys drwy ei themâu "Da i Bobl" a "Da i Fusnes[18] i hwyluso cydweithio drwy dynnu partneriaid at ei gilydd i annog cydweithio a nodi cyfleoedd; ymchwil i ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth - er enghraifft yn deillio o raglen ymchwil Forest Research 2015-2019 - i fod yn sail ar gyfer darparu hyfforddiant galwedigaethol a phrentisiaethau; cyrsiau coedwigaeth gymdeithasol sy'n cael eu datblygu gan Goed Lleol ac sydd wedi'u hachredu gan Agored/OCN; gwybodaeth i bobl ifanc i godi ymwybyddiaeth am yr amrywiaeth o yrfaoedd posibl sy'n |

[17] Croes gyfeirio at PA6.
[18] Gweler Cynllun Busnes Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015/2016 ac Ymrwymiadau P4 a B2.

| | |
|---|---|
| | gysylltiedig â choedwigaeth a choetiroedd. |
| *Cynnydd:* | *I'w adrodd yn flynyddol.* |

*Perthynas â blaenoriaethau'r llywodraeth*

*Mae Camau Blaenoriaeth 7 ac 8 yn cyfrannu tuag at:*

- *Ganlyniadau Coetiroedd i Gymru"  1; 7; 8; 9; 11; 12; 13; a 15*
- *Nodau Llesiant:* ***Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.***

MAES Y CAM BLAENORIAETH

## *Gwella cyflwr coetiroedd a choed*

<u>*Trosolwg*</u>

*Cymru yw un o'r gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop, lle mae gorchudd coetir yn 14% o arwynebedd y tir o gymharu â'r cyfartaledd Ewropeaidd o 37%. Mae'r rhan fwyaf o goetiroedd yng Nghymru naill ai'n blanhigfa gonwydd (prif ffynhonnell y pren a dyfir gartref) neu yn goetiroedd brodorol (er bod rhai wedi cael eu troi yn blanhigfeydd anfrodorol). Mae'r olaf ar raddfa fach ac yn dameidiog yn bennaf ac er nad yw'r cyfan ohono yn hynafol, mae cyfran sylweddol wedi bod yn goediog yn barhaus am o leiaf 400 o flynyddoedd. Er gwaetha'r ffaith bod gorchudd coetir yn is na'r cyfartaledd Ewropeaidd, mae gan goedwigoedd, coetiroedd a choed werth sylweddol o ran y dirwedd.*

*Mae gan goetiroedd hynafol a chynefinoedd eraill sy'n gyfoethog mewn rhywogaethau rôl hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau ecosystemau. Mae ansawdd cynefinoedd y coetir yn cael ei bennu gan gyflwr priddoedd y coetiroedd, dwr, bioamrywiaeth, tirwedd a threftadaeth. Mae'n bwysig amddiffyn y strwythur a gweithrediad rhwydweithiau o gynefinoedd coetiroedd a lle bo'n bosibl gwrthdroi'r broses o ddarnio'r coetir. Mae gwella rhwydweithiau coetiroedd yn rhoi cyfle i boblogaethau bywyd gwyllt gyrraedd cynefinoedd newydd ac addasu i fygythiadau ac amgylchiadau sy'n newid, er enghraifft, o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Mae gwella cyflwr coetiroedd felly yn allweddol i ecosystemau coetir iach a gwydn.*

*Gallai coed hynafol a hynod fod o werth uchel o ran bioamrywiaeth fel cynefinoedd cyfoethog mewn rhywogaethau ar gyfer rhai cennau, mwsoglau a ffyngau sy'n mynd yn fwyfwy prin, a gallant hefyd fod yn adnodd diwylliannol sy'n cysylltu pobl a chymunedau â lle, amgylchedd a diwylliant. Mae coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth yn arbennig o bwysig ar gyfer yr amrywiaeth o wasanaethau ecosystemau y maent yn gallu eu darparu. Mae coed o'r fath yn gynnyrch gweithgaredd biolegol a gweithgaredd dynol yn y gorffennol ac, fel safleoedd archeolegol, maent yn llythrennol yn unigryw. Nid yn ddi-sail y maent yn aml yn cael eu disgrifio fel "henebion gwyrdd".*

*Mae pob coetir, boed hynny yn goetir conifferaidd neu frodorol, yn agored i risgiau o rywogaethau anfrodorol goresgynnol (INNS) - organebau nad ydynt yn frodorol i Brydain Fawr ac sydd â'r potensial o gael effeithiau negyddol ar economi, amgylchedd a/neu iechyd Cymru. Mae INNS yn fygythiad amgylcheddol ac economaidd sylweddol i Gymru. Mae'r rhai sydd eisoes wedi'u sefydlu yn fygythiad sylweddol i ffawna a fflora brodorol ac ar hyn o bryd maent yn costio oddeutu £125 miliwn y flwyddyn i'w trin. Ond gyda globaleiddio cynyddol o ran cynyddu symudiad pobl ac yng nghyd-destun effaith y newid yn yr hinsawdd, mae yna fygythiadau cynyddol gan INNS yn y blynyddoedd a'r degawdau i ddod.*

| | |
|---|---|
| ***Cam Blaenoriaeth 9:*** | ***Archwilio digonolrwydd mesurau a gweithdrefnau presennol ar gyfer diogelu coed gwerthfawr a'r cyfle i'w gwella, yn enwedig coed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth.*** |
| *Sefydliadau Arweiniol a Phartneriaid:* | LlC; Grŵp Gorchwyl a Gorffen a dynnwyd o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol (gan gynnwys Coed Cadw) sy'n cefnogi Llywodraeth Cymru; Ymddiriedolaethau Archaeolegol. |
| *Sail y dystiolaeth:* | Mae gwerth o ran bioamrywiaeth, diwylliant a thirwedd coed hynafol, coed hynod a threftadaeth yn arbennig wedi ei gofnodi'n helaeth. Mae mecanweithiau ar gyfer diogelu coed yn eu lle (yn bennaf drwy gyfrwng y Gorchymyn Cadw Coed a chyfundrefnau'r Drwydded Torri Coed). Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod amddiffyniadau presennol yn annigonol o ran ar ba sail y gellir rhoi gwarchodaeth yn enwedig i goed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth, a'r gofynion gofal a chynnal a chadw ar gyfer coed penodol y gellir eu rhoi ar waith.<br><br>Mae Dangosydd 18 Coetiroedd i Gymru "Cynefinoedd Coetir a Choed Hynafol" yn nodi bod y ganran o arwynebedd a nifer y nodweddion coetiroedd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sydd mewn cyflwr ffafriol wedi gostwng yng nghylch adrodd 2007-2012 o gymharu â chylch adrodd 2002-2006.<br><br>*Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru":*<br>• *Rhif 18: Cynefinoedd coetiroedd a choed hynafol;* a<br>• *Rhif 23: Treftadaeth a thirwedd.* |
| *Gweithgaredd sydd ei angen:* | LlC a gefnogir gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen; archwilio'r defnydd o'r rhestr o goed hynafol i fod yn sail ar gyfer adrodd am Gyflwr Adnoddau Naturiol. |
| *Cynnydd:* | *I'w adrodd yn flynyddol.* |

| | |
|---|---|
| ***Cam Blaenoriaeth 10[19]:*** | ***Parhau i ddod â safleoedd arbennig a nodwyd, Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol ("PAWS"), coetiroedd brodorol a chynefinoedd â blaenoriaeth o dan reolaeth ffafriol ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru ac annog tirfeddianwyr preifat i wneud hynny.*** |
| *Sefydliadau* | Cyfoeth Naturiol Cymru; Coed Cadw; LlC; ConFor; Coed |

[19] Croes gyfeirio at PA3 a 4.

| | |
|---|---|
| *Arweiniol a Phartneriaid:* | Cymru; Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt; Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru; Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod; Ymddiriedolaethau Archaeolegol |
| *Sail y dystiolaeth:* | Mae angen parhaus am adfer cynefinoedd coetir pwysig yn raddol trwy reolaeth briodol, a lle bo hynny'n bosibl, eu hehangu. Bydd gwella eu hiechyd a'u gwytnwch yn ein hinsawdd sy'n newid yn helpu i sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu ar gyfer rhywogaethau â blaenoriaeth, darparu buddion i ecosystemau a pharhau i fod yn adnodd gwerthfawr yn ein tirweddau.<br><br>Yng Nghymru, nid yw llawer o'r coetir lled-naturiol hynafol a choetiroedd brodorol eraill yn eiddo cyhoeddus. Mae *Coetiroedd i Gymru* yn cydnabod bod llawer o'r coetir hwn yn dameidiog ac yn ynysig a bod ei gyflwr ecolegol yn agored i niwed. Mae Stad Goed Llywodraeth Cymru yn cynnwys oddeutu 19,000 ha o'r 95,000 o Safleoedd Coetir Hynafol a nodwyd yn Rhestr Coetir Hynafol Cymru (2011) a weinyddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae holl safleoedd PAWS ar Stad Goed Llywodraeth Cymru wedi eu hasesu a'u blaenoriaethu ac mae gwaith ar y gweill i adfer cyfran o'r PAWS hyn i gyflwr mwy naturiol a gwella eu cyflwr ecolegol. Ond mae angen gwneud mwy i annog mwy o goetiroedd a choed o werth cadwraethol arbennig i ddechrau'r daith tuag at reolaeth ffafriol. Mae pryder hefyd y bydd y gwaith o adfer PAWS yn lleihau cyfanswm y pren a gynhyrchir ac mae PA4 yn canolbwyntio ar ymdrin â'r diffyg o ran cynhyrchu pren yng Nghymru.<br><br>Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Panel Ymgynghorol y Strategaeth Coetiroedd i adolygu digonolrwydd polisi adfer PAWS ar y stad coetir cyhoeddus a phreifat o ran cyflenwi canlyniadau Strategaeth Coetiroedd i Gymru, ac ymchwilio i ddewisiadau am sut y gellid gwella hyn wrth warchod a gwella'r safleoedd hyn.<br><br>Mae LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi cychwyn adolygiad o rôl a phwrpas Ystad Goed Llywodraeth Cymru, sy'n cyfrif am ddwy ran o dair o'r coetiroedd conwydd yng Nghymru ac mae'r adolygiad hwnnw yn berthnasol i gyflawni'r Cam Blaenoriaeth hwn. Bydd cymhellion economaidd yn hwyluso hyfywedd adfer PAWS, o bosibl fel tâl am wasanaethau ecosystem. Darperir gwybodaeth, cyngor a chymhellion ariannol i'r sector preifat drwy ddulliau cyllido megis Glastir a'r Gronfa Natur a thrwy'r gwaith a wneir gan Bartneriaid. |

| | |
|---|---|
| | *Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru":*<br>• *Rhif 7: Cydbwysedd carbon;*<br>• *Rhif 19: Rhywogaethau coetir;* a<br>• *Rhif 20: Cysylltedd.* |
| *Gweithgaredd sydd ei angen:* | Adolygiad LIC a Chyfoeth Naturiol Cymru o rôl a phwrpas Ystad Goed Llywodraeth Cymru; rhaglenni sefydledig megis Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru Canlyniad 21 cronfa ddata o gamau gweithredu ac adrodd a chynllunio o dan Erthygl 17 o Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE; canllawiau i weinyddwyr grantiau / cynghorwyr coetiroedd; hyfforddiant ar gyfer perchenogion coetiroedd, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol eraill; sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu polisi adfer PAWS. |
| *Cynnydd:* | *I'w adrodd yn flynyddol.* |

| | |
|---|---|
| ***Cam Blaenoriaeth 11:*** | ***Datblygu, hyrwyddo a gweithredu rhaglenni i reoli rhywogaethau anfrodorol ymledol sy'n niweidio cynefinoedd coetir.*** |
| *<u>Sefydliadau Arweiniol</u> a Phartneriaid:* | Cyfoeth Naturiol Cymru; Llywodraeth Cymru; FR; APHA; Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru; Fforwm Rhywogaethau Anfrodorol; Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Prydain; Fforwm Gwiwerod Cymru; Partneriaeth y Fenter Ceirw yng Nghymru; ConFor; WFBP; Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent. |
| *Sail y dystiolaeth:* | Mae coedwigoedd, coetiroedd a choed a'r amgylchedd ehangach yn agored i effeithiau niweidiol nifer o rywogaethau anfrodorol sydd bellach wedi'u sefydlu yng Nghymru a'r DU, gan gynnwys rhododendron, clymog Japan, Jac y Neidiwr a'r wiwer lwyd. Mae difrod a achosir gan geirw brodorol ac anfrodorol yn cynyddu hefyd. Cafodd rhai o'r rhywogaethau hyn eu cyflwyno yn fwriadol, ac efallai y bydd ganddynt etifeddiaeth ddiwylliannol a hanesyddol mewn rhai amgylchiadau sydd angen ei hystyried.<br><br>Mae yna hefyd risg y bydd rhywogaethau anfrodorol eraill sydd â'r potensial i gael effaith andwyol ar gynefinoedd coetir yn sefydlu eu hunain yn y dyfodol.[20] |

[20] Croes gyfeirio at PA1.

| | |
|---|---|
| | Mae risgiau presennol a rhai yn y dyfodol gan rywogaethau anfrodorol goresgynnol yn cael eu hasesu yn erbyn Strategaeth y Fframwaith Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol ar gyfer Prydain Fawr, sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer cyflwyno'r polisi rhywogaethau anfrodorol goresgynnol ym Mhrydain Fawr.<br><br>Mae Rheoliad Ewropeaidd newydd yn ceisio ymdrin â phroblemau rhywogaethau anfrodorol goresgynnol mewn modd cynhwysfawr er mwyn diogelu bioamrywiaeth frodorol a gwasanaethau ecosystemau ar draws Ewrop, yn ogystal â lliniaru'r effaith y gallai'r rhywogaethau hynny ei gael ar iechyd ac ar yr economi. Bydd yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau lunio rhestrau o rywogaethau o'r fath sydd o bryder i'r Undeb Ewropeaidd.<br><br>*Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru":*<br>• *Rhif 3: Rheoli coetiroedd yn gynaliadwy;*<br>• *Rhif 8: Iechyd coed*<br>• *Rhif 18: Cynefinoedd coetiroedd a choed hynafol;*<br>• *Rhif 19: Rhywogaethau coetir;* a<br>• *Rhif 20: Cysylltedd.* |
| *Gweithgaredd sydd ei angen:* | Cyfeiriad ac arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys drwy ei thema "Da i'r Amgylchedd"[21] mewn cydweithrediad ag Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Prydain; cymorth ar gyfer Strategaeth Rheoli Ceirw Gwyllt Cymru; LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu Cynllun Gweithredu Rheoli Gwiwerod Llwyd i Gymru; annog gwyddoniaeth dinasyddion; cyfathrebu'r rhesymau dros ymgymryd â rheoli rhywogaethau nad ydynt yn frodorol.<br><br>. |
| *Cynnydd:* | *I'w adrodd yn flynyddol.* |

*<u>Perthynas â blaenoriaethau'r llywodraeth</u>*

*Mae Camau Blaenoriaeth 9, 10 ac 11 yn cyfrannu tuag at:*

- *Ganlyniadau Coetiroedd i Gymru" 1; 2; 3; 4; 5; 6; 7; 8; 10; 16; 17; 18; 19; a 20*

- *Nodau Llesiant:* ***Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;*** a ***Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.***

[21] Gweler Cynllun Busnes Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015/2016 ac Ymrwymiad E2.

MAES Y CAM BLAENORIAETH

## *Coedwigaeth, coetiroedd a choed a'u gwerth o ran elfennau nad ydynt yn ymwneud â phren*

*Trosolwg*

*Mae cyflawni uchelgais tymor hir Coetiroedd i Gymru yn dibynnu ar fod coedwigaeth, coetiroedd a choed Cymru yn cael eu rheoli'n weithredol ac yn gynaliadwy ar gyfer cynhyrchu pren ac i ddarparu nwyddau a gwasanaethau eraill. Felly mae'r Strategaeth yn seiliedig ar y buddion niferus y mae coedwigaeth, coetiroedd a choed yn eu cynnig. Yn ychwanegol at "werth y pren" i'r sector coedwigaeth (tyfwyr a phroseswyr sylfaenol ac eilaidd), mae gan goedwigaeth werth sylweddol o ran yr hyn sydd "ddim yn bren" sy'n fanteisiol i bobl, cymunedau a'r amgylchedd naturiol yng Nghymru: - -*

- *cynhyrchion o goedwigoedd, cynnyrch ac adnoddau nad ydynt yn bren;*
- *cyflogaeth mewn gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â choedwigoedd;*
- *gwasanaethau ecosystemau sy'n ymwneud â choedwigaeth;*
- *hamdden a mynediad - "presgripsiwn gwyrdd" sy'n gwella iechyd, llesiant a ffitrwydd pobl.*

*Er bod data a gwybodaeth yn ymwneud â "gwerth pren" ar gael, mae lle i edrych ar werth coedwigaeth o ran elfennau "heb fod yn bren" er mwyn llywio polisi a rheolaeth coedwigaeth.*

| ***Cam Blaenoriaeth 12:*** | ***Casglu tystiolaeth i fesur a gwerthuso gwerth elfennau nad ydynt yn ymwneud â phren coedwigaeth, coetiroedd a choed yng Nghymru.*** |
|---|---|
| *Sefydliadau Arweiniol a Phartneriaid:* | LlC; Cyfoeth Naturiol Cymru; FC; FR; ConFor; Coed Lleol; Llais y Goedwig; Ymddiriedolaethau Archeolegol. |
| *Sail y dystiolaeth:* | Cafodd Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2011 ac mae'n cynnig y dadansoddiad cyntaf o amgylchedd naturiol y DU o ran y buddion a ddarperir i gymdeithas ac o ran ffyniant economaidd parhaus. Mae'n cydnabod amrywiaeth o wasanaethau ecosystemau a ddarperir gan goedwigaeth ac mae'n ffurfio sail ar gyfer deall ymhellach beth yw gwerth buddion ehangach a ddarperir gan goetiroedd a choed.<br><br>Mae tua 306,000 hectar o goedwigoedd a choetiroedd yng |

Nghymru.Er bod y syniad o reoli coetiroedd mewn dull amlbwrpas yn cael ei dderbyn yn eang, mae gwerth yr holl fuddion y gallai coetiroedd a choed eu darparu i gymdeithas yn aml yn cael ei esgeuluso - buddion o ran yr economi, hamdden, iechyd, buddion esthetig ac ysbrydol i bobl sy'n byw yn agos at goetiroedd neu sy'n ymweld â nhw; eu gwerth o ran bioamrywiaeth a thirwedd, ac o ran treftadaeth a diwylliant. Mae "gwerth" felly yn cwmpasu manteision cymdeithasol, iechyd a diwylliannol yn ogystal â manteision economaidd a'r potensial ar gyfer marchnadoedd newydd sy'n gysylltiedig â choetiroedd a phren. Er bod gwerth o'r fath yn cael ei gydnabod, mae'n anodd ei werthuso'n iawn. Mae'r astudiaethau i-Tree Eco[22] sydd wedi eu gwneud hyd yma yn enghreifftiau sy'n dangos y buddion niferus y gallai coetiroedd a choed eu darparu.

Yn draddodiadol, mae pwysigrwydd economaidd coedwigaeth wedi canolbwyntio ar gynhyrchion pren a rhai sy'n seiliedig ar bren. Nid yw gwerth economaidd cynhyrchion coedwigoedd nad ydynt yn bren a'r potensial ar gyfer datblygu gweithgarwch economaidd cynaliadwy mewn cymunedau lleol wedi cael ei asesu'n llawn. Mae yna fusnesau bach ac unigolion yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch economaidd sy'n ymwneud â chynhyrchion o goedwigoedd nad ydynt yn bren, gan gynnwys cynhyrchu mêl blodau gwyllt, casglu aeron a chynaeafu mwsogl. Nid yw maint a gwerth y gweithgaredd wedi ei ddeall yn llwyr ac mae angen asesu ei botensial yn llawn - er enghraifft o dan ymbarél y prosiect StarTree Ewropeaidd - ar gyfer datblygu ar lefel y gymuned leol.

Bydd coedwigaeth a gwasanaethau ecosystemau sy'n ymwneud â choedwigaeth, coetiroedd a choed yn egwyddor ganolog yn y gwaith o reoli adnoddau naturiol a'r fframwaith cynllunio a blaenoriaethu a gynigir gan Fil yr Amgylchedd (Cymru). Gallai rheoli coetiroedd i gyd-fynd â buddion iechyd, economaidd ac amgylcheddol[23] sy'n mynd y tu hwnt i werth y pren ei hun, yn seiliedig ar well dealltwriaeth o werth coedwigaeth, coetiroedd a choed o ran elfennau heb fod yn goed, o bosibl arwain at ddatblygu marchnadoedd newydd yn y dyfodol.

Fel rhan o'i raglen ymchwil ar gyfer 2015-2019, bydd Forest Research yn cynnal ymchwil i werth gwasanaethau ecosystemau ac i archwilio dylanwadau ar ymddygiad a llywodraethu coedwigoedd. Bydd canlyniadau'r rhaglen ymchwil ynghyd ag ymchwil a gwybodaeth arall am werth coedwigoedd, coetiroedd a choed o ran elfennau nad ydynt yn goed yn sail ar

[22] Croes gyfeirio at PA 5.
[23] Croes gyfeirio at PA 5 a 6.

| | |
|---|---|
| | gyfer penderfyniadau a gymerir yn y dyfodol am reoli coetiroedd.<br><br>*Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru":*<br>• *Rhif 9: Buddion lleol coetiroedd;*<br>• *Coed Cadw Cynnwys y gymuned;*<br>• *Rhif 11: Hamdden;*<br>• *Rhif 12: Hygyrchedd*<br>• *Rhif 15: Gwerth y sector coedwigaeth;* a<br>• *Rhif 17: Iechyd busnes yn y sector coedwigaeth.* |
| *Gweithgaredd sy'n ofynnol:* | Adolygiad LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru o rôl a phwrpas Ystad Goed Llywodraeth Cymru; thema "Da i Wybodaeth" Cyfoeth Naturiol Cymru[24] ; Rhaglen ymchwil FR 2015-2019; Adroddiadau prosiect StarTree Ewropeaidd; adnoddau ar gyfer astudiaethau ac arolygon ychwanegol; rhannu gwybodaeth a thystiolaeth a hyrwyddo ei ddefnydd ymarferol ar draws coetir a reolir ar draws y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector; datblygu marchnadoedd newydd o ganlyniad i gydnabod "gwerth" eang coetiroedd a choed.<br><br>. |
| *Cynnydd:* | *I'w adrodd yn flynyddol.* |

| | |
|---|---|
| ***Cam Blaenoriaeth 13:*** | ***Hyrwyddo a gwella mynediad i goedwigaeth a choetiroedd i fwy o bobl gymryd rhan ac elwa o brofiadau hamdden awyr agored yn amlach. Targedu adnoddau mewn meysydd lle bydd iechyd, lles a manteision economaidd yn cael yr effaith fwyaf.*** |
| *Sefydliadau Arweiniol a Phartneriaid:* | Cyfoeth Naturiol Cymru; Awdurdodau Lleol; Croeso Cymru; Coed Lleol; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Coed Actif; Llais y Goedwig; Coed Cadw; Cymdeithas y Cerddwyr; WATO; Sefydliad Datblygu Cymunedol. |
| *Sail y dystiolaeth:* | Mae coetiroedd a choed iach a gwydn yn darparu ystod eang o fuddion cymunedol, gan alluogi pobl i ddefnyddio a mwynhau coetiroedd, byw bywydau iachach ac ymgymryd â gweithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig â mentrau coetir. Bydd canolfannau llwybrau beicio mynydd llwyddiannus yn parhau i ddenu ymwelwyr i Gymru yn ogystal â darparu cyfleoedd adloniadol ac economaidd i gymunedau lleol. Yn yr un modd, gallai cynulleidfa ehangach hefyd fwynhau'r buddion o ran |

[24] Gweler Cynllun Busnes Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015/2016 ac Ymrwymiad K3

mynediad, hamdden a manteision economaidd o brofi gweithgareddau eraill y gallai coetiroedd eu cynnig, gan gynnwys o fewn ac o amgylch lleoliadau trefol.

Mae 'Plant!' cynllun Llywodraeth Cymru, yn brosiect i blannu coeden ar gyfer pob plentyn sy'n cael ei eni neu ei fabwysiadu yng Nghymru. Amcanion y prosiect yw creu coetiroedd a sicrhau iechyd a llesiant, gan annog ymweliadau hamdden gan deuluoedd i ardaloedd o goetir.

Gallai treulio amser ac ymarfer y tu allan gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant. Mae prosiect "Coed Actif Cymru", a reolir gan Goed Lleol, yn gweithredu mewn pum safle yng Nghymru ac yn darparu gweithgareddau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion y rhai sy'n cymryd rhan sydd â chyflyrau iechyd cronig. Mae Coed Lleol yn bwriadu ehangu nifer y safleoedd ar draws Cymru yn ystod y Cynllun Gweithredu hwn. Mae'r rhaglen "Dewch Allan" yn ymgysylltu â chymunedau i annog y defnydd o fannau gwyrdd, gan gynnwys coetiroedd, i sicrhau manteision i iechyd a llesiant. Mae'r ddwy raglen yn cefnogi datblygu sail o dystiolaeth o amgylch y cyfleoedd o ran iechyd a llesiant sydd ar gael mewn coetiroedd.

Gellir cefnogi cymunedau i nodi'r buddion y gallai coetiroedd a choed eu cynnig iddynt, yn enwedig drwy gyfleoedd o ansawdd da yn ymwneud â mynediad a hamdden lleol.

Bydd coetiroedd yn chwarae rôl gynyddol i gefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i wella cyfleoedd i bobl a chymunedau ddefnyddio’r awyr agored ar gyfer hamdden. Mae coetiroedd yn ffordd dda o sicrhau bod mynediad hawdd a fforddiadwy at fannau gwyrdd lleol o ansawdd da a gweithgareddau awyr agored sy’n agos at lle mae pobl yn byw, gan helpu i wella cydlyniad cymunedol a threchu tlodi. Dyma un o’r egwyddorion allweddol a gynigir ym Mhapur Gwyrdd 2015 Llywodraeth Cymru ar hamdden awyr agored yng Nghymru.[25]

*Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru":*

- *Rhif 9: Buddion lleol coetiroedd;*
- *Coed Cadw Cynnwys y gymuned;*
- *Rhif 11: Hamdden;* a
- *Rhif 12: Hygyrchedd*

[25] “Gwella'r cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol” (http://gov.wales/docs/desh/consultation/150710-access-outdoor-recreation-consultation-cy.pdf).

| | |
|---|---|
| *Gweithgaredd sydd ei angen:* | Cefnogaeth LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru[26] i gynlluniau i wella mynediad a chyfleoedd mynediad; gan ddatblygu ar ganlyniadau Papur Gwyrdd 2015; cefnogaeth gan bartneriaid sy'n gallu darparu, gwella neu annog a hyrwyddo cyfleoedd hamdden mewn coetiroedd; annog cyfranogiad gan gymunedau a grwpiau sy'n llai tebygol o ymweld â a defnyddio coetiroedd; hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau a'r sector preifat reoli safleoedd a chyfleusterau hamdden; Rhaglen Cynefin; adnoddau LlC, Cyfoeth Naturiol Cymru a Phartneriaid ar gyfer astudiaethau ac arolygon ychwanegol am ddefnydd cyhoeddus o goetiroedd. |
| *Cynnydd:* | *I'w adrodd yn flynyddol.* |

*Perthynas â blaenoriaethau'r llywodraeth*

*Mae Cam Blaenoriaeth 13 a 14 yn cyfrannu tuag at:*

- *Canlyniadau "Coetiroedd i Gymru": 3; 6; 8; 9; 10; ac 11*
- *Nodau Llesiant:* ***Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus;*** a ***Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.***

[26] Gweler Cynllun Busnes Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015/2016 a’r pedwar ymrwymiad a nodwyd yn y thema “Da i Bobl”

MAES Y CAM BLAENORIAETH

***Gweithio ar draws ffiniau'r DU***

*Trosolwg*

*Mae'r dirwedd ar gyfer darparu gwasanaethau coedwigaeth wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf ac ym mis Ebrill 2013, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Comisiynwyr Coedwigaeth mewn perthynas â Chymru i Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae rhai swyddogaethau coedwigaeth penodol, er enghraifft yn ymwneud ag iechyd coed, yn parhau i fod o'r pwys mwyaf ar draws Prydain Fawr. Mae DEFRA, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth yn cymryd rhan yn y Prosiect Llywodraethu Coedwigaeth i edrych ar gyflwyno galluoedd gwyddonol ac, yn arbennig, trefniadau tymor hir ar gyfer darparu swyddogaethau ymchwil coedwigaeth ar draws Prydain Fawr gyfan.*

| | |
|---|---|
| ***Cam Blaenoriaeth 14:*** | ***Cymryd rhan yn y Prosiect Llywodraethu Coedwigaeth i lunio'r modd y cyflawnir swyddogaethau coedwigaeth trawsffiniol Prydain Fawr yn y dyfodol gan sicrhau bod anghenion Cymru, ac anghenion gweinyddiaethau eraill Prydain Fawr, yn cael eu bodloni.*** |
| *Sefydliadau Arweiniol a Phartneriaid:* | DEFRA; Llywodraeth yr Alban; LlC; y Comisiwn Coedwigaeth; Forest Research; Cyfoeth Naturiol Cymru; ConFor. |
| *Sail y dystiolaeth:* | Mae swyddogaethau'r Comisiynwyr Coedwigaeth mewn perthynas â Chymru wedi'u trosglwyddo i Gyfoeth Naturiol Cymru ac mae rheoli coedwigaeth mewn rhannau eraill o Brydain Fawr yn destun adolygiad a newid tebygol. Wrth i Gyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu ei allu i ddarparu'r ystod eang o wasanaethau amgylcheddol yng Nghymru, mae'n derbyn rhywfaint o gymorth technegol, gweinyddol a phroffesiynol gan y Comisiwn Coedwigaeth o dan gytundeb gwasanaethau a rennir.<br><br>Mae'r Prosiect Llywodraethu Coedwigaeth yn darparu modd i ddiffinio polisi a gofynion gweithredol swyddogaethau ymchwil coedwigaeth ar draws Prydain Fawr ac i asesu galluoedd gwyddonol hanfodol sydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaethau hynny.<br><br>Yn ychwanegol at alluoedd o ran gwyddoniaeth, mae yna faterion eraill sydd angen consensws ar draws tiriogaethau hefyd, er enghraifft cynnal Safon a Chanllawiau Coedwigaeth y DU. Mae'r Safon yn diffinio dull y DU o reoli coedwigoedd yn gynaliadwy, a dyma'r ffordd y mae amrywiaeth o rwymedigaethau cyfreithiol, lled-gyfreithiol a pholisi yn cael eu diwallu i ddarparu cydbwysedd rhwng y buddion economaidd, |

| | |
|---|---|
| | amgylcheddol a chymdeithasol y gallai coedwigaeth eu darparu.<br><br>*Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru":*<br>• *Rhif 1: Coetiroedd a choed;*<br>• *Rhif 3: Rheoli coetiroedd yn gynaliadwy;* a<br>• *Rhif 8: Iechyd coed* |
| *Gweithgaredd sydd ei angen:* | LlC, DEFRA, Llywodraeth yr Alban a'r Comisiwn Coedwigaeth i ymgysylltu er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried gan y broses hon. |
| *Cynnydd:* | *I'w adrodd yn flynyddol.* |

*<u>Perthynas â blaenoriaethau'r llywodraeth</u>*

*Mae Cam Blaenoriaeth 14 yn cyfrannu tuag at:*

- *Ganlyniadau Coetiroedd i Gymru" 2; 3; 5; 6; 13; 14; 16; a 18*
- *Nodau Llesiant:* ***Cymru lewyrchus; Cymru iachach; a Chymru fwy cyfartal.***

# RHAN 3

## Adrodd ac Adolygu

22. Mae *"Coetiroedd i Gymru"* yn nodi'r uchelgeisiau tymor hir ar gyfer coetiroedd a choed yng Nghymru a'r canlyniadau sydd eu hangen ganddynt i fod o fudd i economi, amgylchedd a phobl Cymru. Mae *"Coetiroedd i Gymru"* yn strategaeth hanner can mlynedd, sy'n cydnabod natur hirdymor y gwaith o reoli coedwigoedd, coetiroedd a choed a'r buddion lluosog y gallant eu darparu. Noda'r *Cynllun Gweithredu* hwn y camau a'r gweithgareddau tymor byr i roi ffocws ar yr uchelgeisiau tymor hir. Mae'n un o gyfres o gynlluniau gweithredu pum mlynedd a bydd llawer o'r camau gweithredu unigol yn cyfrannu at gyflawni mwy nag un o Ganlyniadau'r Strategaeth. Am y rheswm hwn, mae "Coetiroedd i Gymru" yn cynnwys cyfres o ddangosyddion a fydd yn rhoi hyder i ni i asesu cynnydd ar draws "Coetiroedd i Gymru" i gyd.

23. Mae'r cylch adrodd ac adolygu yn cynnwys tair elfen: - -

(i) mae *"Coetiroedd i Gymru"* yn cyflwyno'r Weledigaeth a'r Canlyniadau tymor hir yr ydym yn ceisio eu cyflawni dros oes y strategaeth;

(ii) mae'r *Cynllun Gweithredu* hwn, ac iteriadau dilynol, yn crynhoi gweithredoedd a gweithgareddau partneriaid cyflenwi ar draws pob sector o'r gymdeithas sydd eu hangen i weithredu'r strategaeth; a


(iii) mae *Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru"* yn asesu effaith pob un o'r camau a'r gweithgareddau a gyflawnwyd ac yn monitro llwyddiant pob un o'n hymdrechion i gyflawni'r *Weledigaeth a'r Canlyniadau* tymor hir.

24. Cyhoeddir *Dangosyddion "Coetiroedd i Gymru"* bob hydref am y flwyddyn flaenorol yn diweddu ar 31 Mawrth[5]. Bydd cynnydd yn erbyn y ***camau blaenoriaeth*** yn y *Cynllun Gweithredu* yn cael eu diweddaru ar sail ad hoc. Ym mhob blwyddyn galendr, bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol o gynnydd cyffredinol yn erbyn y ***camau blaenoriaeth*** a nodir yn y *Cynllun* hwn. Bydd pob adroddiad blynyddol yn gyfle i adolygu a diweddaru'r camau gweithredu mewn ymateb i ddangosyddion perfformiad *"Coetiroedd i Gymru"* a thystiolaeth arall o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r diagram isod yn dangos sut y bydd y cylch adrodd ac adolygu yn gweithredu.

---

[5] Gellir gweld y Dangosyddion yn: http://gov.wales/statistics-and-research/woodlands-wales-indicators/?lang=en

# Cynllun Gweithredu - Cylch Adrodd ac Adolygu Blynyddol



**<u>ATODIAD 1</u>**

## <u>"Coetiroedd i Gymru" Gweledigaeth, Themâu a Chanlyniadau</u>

**Ein Gweledigaeth:**

"Bydd Cymru'n cael ei hadnabod am ei choetiroedd o ansawdd uchel sy'n harddu'r dirwedd, sy'n briodol i amodau lleol ac sydd â chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd."

***Themâu a Chanlyniadau:***

*Coetiroedd a Choed Cymru*

1. Mae mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy
2. Mae ecosystemau coetiroedd yn iach a gwydn
3. Mae coetiroedd wedi'u haddasu'n well i gyflawni ystod eang o fanteision
4. Mae gorchudd coetir yng Nghymru'n cynyddu
5. Mae gan reoli coetiroedd a choed fwy o gysylltiad â mathau eraill o ddefnydd tir
6. Mae coetiroedd a choed trefol yn cyflawni ystod eang o fuddion

*Ymateb i Newid yn yr Hinsawdd*

7. Mae coetiroedd Cymru yn helpu i leihau ôl troed carbon Cymru. Mae llawer o'r canlyniadau yn yr adrannau eraill hefyd yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd, y gellir ei ystyried yn fater trawsbynciol

*Coetiroedd i Bobl*

8. Mae mwy o gymunedau yn elwa ar goetiroedd a choed
9. Mae mwy o bobl yn mwynhau buddion gydol oes coetiroedd a'u cynhyrchion
10. Mae mwy o bobl yn byw bywydau iach o ganlyniad i ddefnyddio a mwynhau coetiroedd
11. Mae mwy o bobl yn elwa ar fentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd

*Sector Coedwigaeth Gystadleuol ac Integredig*

12. Mae mwy o bren a dyfir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru
13. Mae'r sector coedwigaeth wedi'i integreiddio'n well, yn fwy cystadleuol, ac yn cefnogi economi Cymru
14. Gwneir mwy o ddefnydd o goed fel adnodd adnewyddadwy allweddol
15. Ceir gweithlu medrus, llwyddiannus yn y sector coedwigaeth

*Ansawdd Amgylcheddol*

16. Mae rheolaeth coetiroedd yn cyflawni safonau uchel o stiwardiaeth amgylcheddol
17. Mae coetiroedd a choed sydd o werth cadwraethol arbennig o dan reolaeth ffafriol
18. Mae bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei gefnogi ac mae coetir brodorol yn cael ei reoli mewn dull ffafriol
19. Mae coetiroedd a choed yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad arbennig tirwedd Cymru ac i safleoedd o bwysigrwydd o ran treftadaeth a diwylliant
20. Mae coetiroedd a choed newydd a phresennol yn cyfrannu at reolaeth dŵr a phridd

**Atodiad 2**

## Nodau Llesiant

**Cymru lewyrchus** *Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.*

**Cymru gydnerth** *Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).*

**Cymru iachach** *Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.*

**Cymru sy'n fwy cyfartal** *Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).*

**Cymru o gymunedau cydlynus** *Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.*

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** *Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.*

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** *Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.*

**Atodiad 3**

## Geirfa

**Coetir / coed hynafol:** Safleoedd sydd wedi bod yn goediog yn barhaus ers cyn 1600 OC. Mae coed hynafol yn hen neu'n oedrannus mewn cymhariaeth â choed o'r un rhywogaeth.

**Bioamrywiaeth:** yr amrywiaeth o ecosystemau a rhywogaethau, gan gynnwys amrywiad genetig o fewn rhywogaethau.

**Dal a storio carbon:** llif carbon i gronfeydd daearol neu forol, gan gynnwys cael gwared uniongyrchol o garbon deuocsid o'r atmosffer drwy, ymhlith pethau eraill, newid mewn defnydd tir, coedwigo, ailgoedwigo ac arferion coedwigaeth sy'n gwella carbon yn y pridd.

**Newid yn yr hinsawdd:** newidiadau naturiol a rhai a achosir gan bobl yn "nhywydd cyfartalog" rhanbarth.

**Cymuned:** pobl sy'n dal rhywbeth yn gyffredin: lle; neu ddiddordeb cyffredin.

**Coedwigaeth gorchudd di-dor:** systemau coedamaeth lle mae canopi'r goedwig yn cael ei gynnal heb gwympo'r coed i gyd ar ddarn o dir.

**Ecosystem:** y modd y mae planhigion ac anifeiliaid yn rhyngweithio â'i gilydd a'r amgylchedd anfyw.

**FCGB/FC/FR:** Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr, y Comisiwn Coedwigaeth a neu Forest Research.

**Gwerth Ychwanegol Crynswth:** dull o asesu'r economi a'r gyfran y mae gwahanol ddiwydiannau yn ei chyfrannu tuag ati.

**Systemau coedamaeth isel eu heffaith:** systemau coedamaeth sy'n ddewisiadau eraill yn lle torri coed ac sy'n lleihau effeithiau amgylcheddol.

**Rhywogaethau brodorol:** un a gyrhaeddodd Gymru heb gymorth pobl yn ystod gwladychu ôl-rewlifol. *Coetir brodorol* yw coetir sy'n cynnwys rhywogaethau brodorol lleol yn bennaf neu'n gyfan gwbl.

**Adnoddau naturiol:** adnoddau a ddarperir gan ecosystemau gan gynnwys: anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill; aer, dŵr a phridd; mwynau; nodweddion a phrosesau daearegol; nodweddion ffisiograffigol; a nodweddion a phrosesau hinsoddol.

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

**PA:** Cam Blaenoriaeth

**PAWS:** Safleoedd Coetiroedd Hynafol neu Goetiroedd lled Hynafol sydd wedi eu hailblannu fwy neu lai a lle mae gwerth ecolegol y safle wedi ei ddiraddio.

**Gwasanaethau ecosystemau:** y buddion o'r adnoddau a'r prosesau naturiol a gyflenwir gan ecosystemau naturiol, yn wahanol i gynhyrchion a swyddogaethau ecosystemau oherwydd mae galw dynol am yr adnoddau naturiol.

**Cynefinoedd agored â blaenoriaeth:** cynefinoedd a nodwyd fel rhai o dan fygythiad ac sy'n ddarostyngedig i Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, gan gynnwys: rhostir yr ucheldir; gorgors; a dolydd iseldir.

**Potensial cynhyrchiol:** faint o bren y gellid ei gynaeafu yn gynaliadwy o ardal o goetir, a bennir gan ffactorau megis cyfradd twf y coed, ymarferoldeb cynaeafu'r pren a materion fel bioamrywiaeth, cadwraeth a hamdden.

**Coetir lled-naturiol:** yn y DU, nid oes unrhyw wir goetir "naturiol" yn dal i fod mewn bodolaeth. Mae gan goetiroedd lled-naturiol glystyrau ar hyn o bryd sy'n cynnwys coed a llwyni sy'n frodorol i'r safle yn bennaf ac nad yw'n amlwg eu bod wedi'u plannu. Maent wedi tyfu yn bennaf o adfywio naturiol neu o dwf coedlan / tocbren o goed unigol a aildyfwyd yn naturiol.

**Coedwigaeth cylchdro byr:** tyfu coed sy'n tyfu'n gyflym am 8-20 mlynedd, yn aml ar gyfer coedlannau lle gall cynaeafu ddigwydd bob tair blynedd neu debyg.

**Coedwriaeth:** y technegau o ofalu am ac adfywio coetiroedd, a chynaeafu eu cynnyrch ffisegol.

**Safleoedd arbennig:** Safleoedd a warchodir yn rhyngwladol (gan gynnwys: safleoedd Natura 2000 a warchodir o dan Gyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar y GE; a safleoedd a warchodir o dan Gytundeb RAMSAR) a safleoedd a warchodir yn

**Planhigfa:** coetir lle mae'r coed presennol wedi eu plannu. Mae'n aml yn cynnwys coeden sy'n adfywio'n naturiol hefyd. Mae'n cynnwys coetiroedd lled-naturiol a gafodd eu hailstocio drwy blannu.

**UKWAS:** Mae Safon Sicrhau Coetir y DU yn safon ardystio annibynnol ar gyfer dilysu rheolaeth coetir cynaliadwy yn y DU.

**Coeden hynod:** coeden sy'n dangos arwyddion o hynafiaeth, waeth beth fo'i hoedran. Fel coed hynafol, mae'r rhain yn goed o ddiddordeb biolegol, esthetig neu ddiwylliannol.

**Nodau Llesiant:** y nodau a nodir yn adran 4 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Coedwig Genedlaethol Cymru:** yr holl goetiroedd yng Nghymru, mewn perchenogaeth gyhoeddus a phreifat.

**WFPB:** Partneriaeth Fusnes Coedwig Cymru.

**LlC:** Llywodraeth Cymru;

genedlaethol (gan gynnwys: Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol; a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig).

**UKFS:** Safon Coedwigaeth y DU yw'r ymagwedd at goedwigaeth gynaliadwy a fabwysiadwyd gan diriogaethau cyfansoddol llywodraeth y DU. Mae'n sefydlu'r safon ar gyfer rheoli'r holl goedwigoedd a choetiroedd yn y DU mewn dull cynaliadwy.

**WGWE:** Ystad Coetir Llywodraeth Cymru. Y tir sy'n eiddo i Weinidogion Cymru ac a osodwyd at wasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967.